RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
89/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
03/10/2023

# Archwilio canfyddiadau a phrofiadau o’r calendr ysgol presennol yng Nghymru

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-83504-814-6

Archwilio canfyddiadau a phrofiadau o’r calendr ysgol presennol yng Nghymru

Awduron: Geof Andrews, Joseff Howells, Kerry KilBride, Maya Richardson, Sophie Wheeler / Miller Research (UK) Ltd.
Meurig Roberts

Adroddiad ymchwil llawn: Andrews, G., Howells, J., KilBride, K., Richardson, M., Wheeler, S., Miller Research, Roberts, M. (2023). *Archwilio canfyddiadau a phrofiadau o’r calendr ysgol presennol yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad ymchwil cymdeithasol y Llywodraeth rhif 89/2023
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/diwygior-flwyddyn-ysgol-canfyddiad-phrofiadau-or-calendr-ysgol-presennol

Barn yr ymchwilydd yw’r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
03000256812
E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

1. Cyflwyniad a chefndir ... 1
Diwygio'r flwyddyn ysgol ... 1
Y calendr ysgol ... 1
Sail resymegol yr ymchwil ... 2
Strwythur yr adroddiad ... 4
2. Methodoleg ... 5
3. Canfyddiadau ... 13
Cynnydd a chyrhaeddiad ... 13
Blinder a llesiant ... 19
Ymddygiad dysgwyr ... 30
Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ... 33
4. Casgliadau ... 35

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1.1: Strwythur presennol y flwyddyn ysgol yng Nghymru.......................2

**Geirfa**

| Talfyriad / gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Calendr Ysgol | Strwythur presennol y flwyddyn ysgol |
| CBYLD | Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion ar Lefel Disgyblion (PLASC) |
| Diddwythol | Deductive |
| MAT | Mwy Abl a Thalentog |
| NQT | Athro Newydd Gymhwyso |
| PRU | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## Diwygio'r flwyddyn ysgol

1.1 Mae Llywodraeth Cymru, trwy ei Rhaglen Lywodraethu a'i Chytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, wedi ymrwymo i archwilio diwygio'r flwyddyn ysgol.[1] Y prif ysgogiad dros hyn yw ystyried y trefniadau presennol a threfniadau eraill posibl er mwyn sicrhau darparu'r calendr ysgol gorau ar gyfer lliniaru effeithiau amddifadedd, lleihau anghydraddoldeb addysgol, cefnogi llesiant dysgwyr a staff a chalendr y gellir sicrhau ei fod yn unol â phatrymau cyfoes bywyd teuluol a chyflogaeth.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno diwygiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru, ynghyd â gweithredu polisïau penodol i wella ansawdd addysg a chynyddu'r graddau y caiff rhieni a chymunedau eu cynnwys. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r ffordd mae'r calendr ysgol wedi ei strwythuro â'r potensial i gefnogi a galluogi'r diwygiadau hyn. Yn yr un modd, mae'n flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau addysgol i ddysgwyr difreintiedig. Caiff pob polisi a ystyrir gan Lywodraeth Cymru ei farnu ar sail a yw'n helpu mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

## Y calendr ysgol

1.3 Mae strwythur presennol y flwyddyn ysgol (neu academaidd) yng Nghymru:

- yn cychwyn yn gynnar ym mis Medi ac yn gorffen ganol mis Gorffennaf.
- yn darparu 19 o ddyddiau ysgol, bob un tua 6.5 awr o hyd.

[1] Rhaglen lywodraethu
Y Cytundeb Cydweithio

- wedi'i rannu'n dri thymor: yr Hydref o fis Medi hyd fis Rhagfyr, y gwanwyn o fis Ionawr hyd fis Mawrth neu fis Ebrill[2], a'r haf o fis Ebrill hyd fis Gorffennaf.
- â thymhorau sy'n amrywio mewn hyd lle mai'r Hydref yw'r tymor hiraf fel arfer. Mae hyd tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf yn newid gan ddibynnu ar ddyddiad y Pasg.
- yn hollti tymhorau â gwyliau o wythnos. Mae'r hanner-tymhorau hefyd o amrywiol hyd, fel arfer rhwng pedair a saith wythnos er eu bod weithiau'n hirach. Mae tymhorau llawn wedi eu gwahanu â gwyliau pythefnos o hyd, a blynyddoedd academaidd â gwyliau o chwe wythnos dros yr haf. (gweler ffigur 1.1 isod)
- â 13 wythnos o amser pan nad oes addysgu (gan gynnwys gwyliau o chwe wythnos rhwng pob blwyddyn) a thuag un wythnos (pum niwrnod) o hyfforddiant staff[3] (a elwir hefyd yn ddyddiau hyfforddiant mewn swydd).
- â dyddiadau tymhorau ledled y Deyrnas Unedig ac o fewn Cymru nad ydynt wedi eu cysoni â'i gilydd. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "Cyrff Perthnasol", yn gyfrifol am benderfynu dyddiadau tymhorau ysgolion a gynhelir ac o ganlyniad mae dyddiadau tymhorau yn debyg ledled Cymru ond ddim bob amser yr un fath.

**Ffigur 1.1: Strwythur presennol y flwyddyn ysgol yng Nghymru**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tymor 1 | 1 | Tymor 1 | 2 | Tymor 2 | 1 | Tymor 2 | 2 | Tymor 3 | 1 | Tymor 3 | 6 |
| Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst |

### Sail resymegol yr ymchwil

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn dilyn gwaith a wnaed mewn astudiaethau blaenorol i Lywodraeth Cymru (Hughes:2022)[4], (Beaufort Research,

[2] Mae diwedd tymor y gwanwyn yn seilieidig ar amseriad y Pasg a all ddigwydd ar unrhyw ddyddiad rhwng 22 Mawrth a 25 Ebrilll.
[3] Pan fo dysgwyr gartref ond athrawon yn yr ysgol.
[4] [Effaith newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgol amgen: adolygu tystiolaeth]

Cazbah:2022).[5] Mae adborth parhaus gan randdeiliaid i Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r achos dros archwilio effeithiau'r calendr ysgol a strwythurau eraill. Yn gyffredinol, mae'r ymchwil blaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cynnwys y safbwyntiau canlynol:

- Mae cynnydd dysgwyr (o leiaf i rai dysgwyr) yn arafu neu'n peidio yn y cyfnod sy'n arwain at yr haf a gwyliau'r haf chwe wythnos o hyd.
- Mae'r calendr presennol yn cael effeithiau negyddol ychwanegol ar rai grwpiau, megis dysgwyr lle mae iaith cyfrwng yr ysgol yn wahanol i'r iaith a siaredir gartref, yn ogystal â dysgwyr bregus a difreintiedig gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwaengol.
- Gall tymhorau sy'n anghyson eu hyd effeithio ar lesiant dysgwyr a staff ac maent yn annhebygol o gynnig yr amodau gorau ar gyfer rheoli llwyth gwaith yn effeithiol; gall blinder fod yn uchel yn nhymor hir yr Hydref, a gall ymdrin yn gynhwysfawr â chynnwys y cwricwlwm fod yn anodd mewn hanner-tymhorau byrrach.
- Gall tymhorau sy'n fwy cyson (a sefydlog) o ran hyd helpu ysgolion ac athrawon gyda chynllunio, rheoli llwyth gwaith a chefnogi dysgwyr, yn enwedig y rheini mewn blynyddoedd pontio ac arholiadau allanol.

1.5 Y prif nod ymchwil ar gyfer y comisiwn hwn oedd archwilio profiadau a chanfyddiadau dysgwyr, eu teuluoedd ac ymarferwyr ysgolion o'r calendr ysgol presennol. Bydd y canfyddiadau a ddogfennir yn yr adroddiad hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau ynghylch y flwyddyn ysgol i geisio calendr ysgol teg a modern a fydd yn helpu mynd i'r afael ag amddifadedd, yn gwella cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr, cefnogi llesiant dysgwyr a staff ac a fydd yn gydnaws â bywyd cyfoes.

[5] Archwilio diwygio'r flwyddyn ysgol, Adroddiad Beaufort Research: agweddau tuag at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru

1.6 O'r herwydd, diben yr ymchwil oedd ceisio dealltwriaeth o'r calendr ysgol fel mae ar hyn o bryd ac nid archwilio agweddau tuag at unrhyw strwythurau penodol amgen ar gyfer y flwyddyn ysgol.

**Strwythur yr adroddiad**

1.7 Yr adroddiad hwn yw'r prif gynnyrch o'r ymchwil. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar nodau'r ymchwil a chwestiynau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ym manyleb wreiddiol yr ymchwil ac mae wedi ei strwythuro fel a ganlyn.

- Adran 2 yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer yr ymchwil.
- Adran 3 yn nodi'r canfyddiadau o dan themâu:
  - Cynnydd a chyrhaeddiad
  - Blinder a llesiant
  - Ymddygiad dysgwyr
  - Pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.
- Adran 4 yn cyflwyno'r casgliadau.

## 2. Methodoleg

2.1 Aeth yr ymchwil ati mewn dull cymysg dilynol i geisio dal darlun mor gynhwysfawr â phosibl ar y meysydd allweddol o ddiddordeb, sef y berthynas rhwng y flwyddyn ysgol bresennol a'r canlynol:

- cynnydd a chyrhaeddiad
- blinder a llesiant
- ymddygiad dysgwyr
- pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

2.2 Mae'r ymchwil wedi casglu gwybodaeth sy'n ansoddol yn bennaf. Ni wnaed ymgais i ddefnyddio sampl meintio cynrychioliadol nac i gael sail feintiol o dystiolaeth. Byddai dull meintiol ei sail wedi dangos pa safbwyntiau sydd fwyaf cyffredin ledled Cymru. Er y byddai hyn yn ddefnyddiol i ryw raddau, byddai wedi bod ar draul deall amrediad llawn y safbwyntiau, gyda risg y byddai cyd-destunau pwysig sy'n lleiafrifol wedi cael eu lleihau neu eu hanwybyddu.

2.3 Yn lle hynny, mae'r pwyslais wedi bod ar gasglu barn o wahanol gyd-destunau er mwyn sicrhau cael yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau. O'r herwydd, nid yw ymatebion wedi cael eu pwysoli na'u mesur ar sail amlder, a lle adroddir gwahaniaethau barn, rhoddir y cyd-destun. Mantais y dull hwn yw cynnwys nifer helaeth o gyd-destunau a rhanddeiliaid yn well. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael atebion i'r cwestiynau ymchwil sy'n archwilio'r berthynas rhwng y flwyddyn ysgol a themâu allweddol, a sut y gall y berthynas hon amrywio ar draws gwahanol ffactorau cyd-destunol.

2.4 Cafodd y dystiolaeth ei gasglu mewn tri cham. Roedd hyn yn cynnwys cyfnod cwmpasu cychwynnol, adolygiad desg o ddata a oedd ar gael eisoes, a phrif gyfnod gwaith maes i gasglu gwybodaeth ansoddol uniongyrchol.

<u>Cyfnod cwmpasu</u>

2.5 Diben y cyfnod cwmpasu oedd adnabod themâu i arwain y prif gyfnod gwaith maes a gwella dealltwriaeth o gyd-destun strwythur presennol

y flwyddyn academaidd. Roedd y cyfnod hwn yn cynnwys adolygiad cychwynnol o setiau data a oedd ar gael eisoes a 15 o gyfweliadau a wnaed gyda chynrychiolwyr o'r canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol
- Bwrdd arholi CBAC (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru gynt)
- ESTYN
- dau undeb yn cynrychioli ymarferwyr ysgol
- un ymarferydd arweinyddiaeth ysgol arbennig
- un prifathro ysgol uwchradd
- un ymarferydd arweinyddiaeth ysgol ffydd uwchradd
- un prifathro ysgol gynradd Gymraeg
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

2.6 Ar sail canfyddiadau'r cwmpasu, datblygwyd fframwaith ymchwil a oedd yn nodi'r hyn a oedd eisoes yn hysbys ynghylch effeithiau'r flwyddyn ysgol, pa fylchau oedd yn y sail dystiolaeth, a ffynonellau addas o ddata i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae'r cwestiynau ymchwil gwreiddiol i'w cael yn Atodiad A.

<u>Adolygu data a oedd ar gael eisoes</u>

2.7 Roedd adolygiad llawn o'r data a oedd ar gael eisoes yn cynnwys:

- Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion ar Lefel Disgyblion (y cyfeirir ato fel CBYLD yn y Gymraeg a PLASC yn Saesneg)
- data presenoldeb dysgwyr ledled Cymru gyfan o fis Medi 2014, gyda bwlch yn y data ar gyfer 2019/2020 oherwydd Covid-19
- data absenoldeb staff yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn galendr
- dyddiadau tymhorau
- gwaharddiadau disgyblion ledled Cymru gyfan yn ôl blwyddyn ysgol
- canlyniadau graddau TGAU o'r flwyddyn ysgol 2008/9 hyd 2021/2 a ffiniau graddau[6] ar gyfer TGAU unigol rhwng 2016/7 a 2021/2.

[6] Sef, y marciau sydd eu hangen i gyrraedd pob gradd.

2.8 Yn gyffredinol, roedd y data hwn yn ddefnyddiol ond yn fyr o fanylder digonol i roi dealltwriaeth o gyd-destunau penodol, megis lleoliad daearyddol, math o leoliad, a chyfrwng y lleoliad. O ran data ar absenoldeb staff cyn 2020/2021, dim ond nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd fesul athro dros y flwyddyn gyfan (yn ôl awdurdod lleol) sydd ar gael, felly nid oedd yn bosibl edrych a oedd tueddiad blwyddyn-ar-flwyddyn[7] mewn absenoldeb yn neilltuol o uchel ar adegau penodol o'r flwyddyn.

2.9 Cyfyngedig hefyd yw defnyddioldeb data gwahardd disgyblion yng nghyd-destun yr ymchwil hwn; mae'r unig ddata sydd ar gael ar y cyfanswm o waharddiadau (parhaol a thymor penodol) o fewn pob awdurdod lleol dros y flwyddyn gyfan, sy'n rhwystro ymchwiliad mwy manwl i weld a oes adegau o'r flwyddyn pan fo gwaharddiadau yn nodweddiadol uwch. Nid oedd gwybodaeth am bresenoldeb dysgwyr chwaith ond ar gael yn flynyddol tan fis Medi 2020, ac felly'n rhwystro archwilio adegau o'r flwyddyn pan fod presenoledeb ar ei isaf. Ers mis Medi 2020, mae data presenoldeb ar gael ar gyfer pob diwrnod ysgol ar lefel dysgwr, ysgol ac awdurdod lleol. Roedd hyn yn rhoi sampl rhy fach ar gyfer yr astudiaeth hon ond gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Cyfnod gwaith maes

2.10 Datblygwyd fframwaith samplo cynhwysfawr ar gyfer cynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr, a staff ysgolion. Roedd y ffactorau ar gyfer pob grŵp yn cynnwys:

- oedran dysgwyr
- statws economaidd-gymdeithasol dysgwyr a theuluoedd
- cyd-destun gwledig/trefol

[7] Ni fyddai defnyddio data ar gyfer 2020/2021 a 2021/2022 yn unig wedi caniatáu ar gyfer adolygiad o dueddiadau dros sawl blwyddyn.

- iaith cyfrwng y dysgwr (sef yr iaith maent yn ei siarad gartref[8]) ac iaith cyfrwng eu hysgol[9]
- statws anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr.

2.11 I ddysgwyr, cyflawnodd Plant yng Nghymru ymchwil uniongyrchol gyda deg dosbarth ar draws wyth ysgol roeddent wedi eu dewis trwy sampl cyfle (roedd dwy yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, chwech yn rhai cyfrwng Saesneg, ac un yn ysgol arbennig). Roedd dosbarthiadau yn cynnwys blynyddoedd 6,7,8,9,10,11, a 12[10]. Fe wnaeth cyfanswm o 73 o ddysgwyr gymryd rhan fel hyn, gyda 34 yn wrywaidd, 34 yn fenywaidd, dau yn anneuol a thri â rhywedd heb ei gofnodi. Roedd 19 o'r 73 yn mynychu ysgol Gymraeg neu ddwyieithog ac wyth yn hunan-adnabod fel rhai sy'n gallu siarad Cymraeg. Roedd 23 o ddysgwyr yn Ddu, Asiaidd, lleiafrif ethnig, neu sipsi, Roma, teithiwr. Roedd 24 o'r 73 yn gymwys am brydau ysgol am ddim, mae gan 16 o'r 73 anghenion dysgu ychwanegol, a phump o'r 73 â Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Rhannwyd holiadur hefyd gyda'r 60 aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, gan gynnwys dysgwyr â dosbarthiad daearyddol ledled Cymru, yn rhychwantu ystod o grwpiau oedran. Lluniwyd hyn gan Miller Research a'i gylchredeg trwy Plant yng Nghymru.

2.12 Cafodd rhieni eu dewis o boblogaeth a oedd wedi cytuno o'r blaen i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil. Cynhaliwyd cyfanswm o 11 o grwpiau ffocws gyda rhieni dysgwyr yng Nghymru, yn cynnwys cyfanswm o 62 o rieni. Gosodwyd rhieni mewn grwpiau yn defnyddio cyfres o gwestiynau sgrinio a oedd yn penderfynu oed eu plentyn/plant, iaith cyfrwng yr ysgol roedd eu plentyn/plant yn ei mynychu, yr iaith a ddefnyddir gartref, statws economaidd-gymdeithasol y rhieni (gan ddefnyddio Gradd Gymdeithasol yr

[8] Gofynnwyd i ddysgwyr ym mhob grŵp pa iaith(ieithoedd) maent yn eu siarad yn bennaf gartref.

[9] I ddiben yr ymchwil hwn, mae ysgolion sy'n rhai cyfrwng Cymraeg ac ysgolion sy'n ddwyieithog wedi cael eu cyfuno er mwyn sicrhau cynrychioliaeth ddigonol o ysgolion lle caiff y Gymraeg ei siarad. Defnyddir yr un deull mewn data cyfrifiadau ysgolion. Pan gyfeirir at leoliadau cyfrwng Cymraeg yn yr adroddiad hwn, mae'n cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog.

[10] Sef, dysgwyr yn gwneud Lefel A neu gyfwerth mewn Chweched Dosbarth ysgol.

NRS[11]), ac a oedd gan eu plant anghenion dysgu ychwanegol neu beidio. Roedd y grwpiau yn cynnwys pedwar a oedd yn gyfan gwbl i rieni dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg (dau oedran cynradd a dau oedran uwchradd), pedwar yn gyfan gwbl ar gyfer rheini dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg (dau oedran cynradd a dau oedran uwchradd), dau i rieni dysgwyr sy'n mynychu ysgolion arbennig, ac un i rieni dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sydd mewn ysgolion prif ffrwd (pob oedran).

2.13 Cysylltwyd ag ymarferwyr ysgol trwy eu hysgolion. Casglwyd data ar bob ysgol yng Nghymru yn ôl math o leoliad (cynradd, uwchradd, 3-16, arbennig ac uned cyfeirio disgyblion) iaith cyfrwng (Saesneg, a Chymraeg neu ddwyieithog), lleoliad (yn ôl awdurdod lleol), natur wledig, canran o ddysgwyr a gofrestrwyd fel rhai cymwys am brydau ysgol am ddim (dysgwyr prydau ysgol am ddim) (canran uchel yn hafal neu'n fwy na 32 y cant, canolig rhwng 14 a 31.9 y cant cynhwysol, isel yn hafal neu'n llai na 13.9 y cant), canran o ddysgwyr â'r Saesneg fel iaith ychwanegol (uwchlaw neu islaw cyfartaledd o 5.61 y cant ar gyfer ysgolion cynradd a 3.58 y cant ar gyfer ysgolion uwchradd), a chanran o ddysgwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Gwahoddwyd 192 o ysgolion cynradd i gymryd rhan trwy e-bost, wedi eu dewis ar hap o gategorïau seiliedig ar y data a ddidolwyd. Gwahoddwyd pob ysgol uwchradd a 3-16 yng Nghymru i gymryd rhan trwy e-bost. Defnyddiwyd cyfeiriadau e-bost sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer y cysylltiadau cychwynnol. Nodwyd cyfranogwyr yn ôl y categorïau o leoliadau roeddent yn berthnasol iddynt.

2.14 Cynhaliwyd cyfanswm o 28 o grwpiau ffocws gydag ymarferwyr ysgol. O'r rhain, cafodd 19 eu rhannu yn ôl oedran dysgwyr (sef ymarferwyr naill ai ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd), cyfrwng iaith ysgol, a rolau staff gan gynnwys:

- arweinwyr gan gynnwys prifathrawon ac aelodau uwch dimau arwain

[11] Gradd Gymdeithasol Arolwg Cenedlaethol Darllenwyr | nrs.co.uk

- athrawon gan gynnwys athrawon newydd gymhwyso
- staff cymorth gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth dysgu, staff gweinyddol a rheolwyr safle.

2.15 Roedd pum grŵp yn gymysg o rolau staff, mewn achosion lle na chafodd digon eu recriwtio i'r astudiaeth / staff ar gael i ganiatáu ar gyfer grwpiau neilltuedig.

2.16 Cynhaliwyd dau grŵp gyda staff ysgolion arbennig a dau grŵp gyda staff unedau cyfeirio disgyblion.

2.17 Cynhaliwyd dau grŵp ffocws ychwanegol gyda gweithwyr ieuenctid i gael eu profiadau o ddiogelu dysgwyr, ac ymddygiad cyffredinol dysgwyr, yn ystod amser tymor a gwyliau ysgol. Gwahoddwyd gweithwyr ieuenctid i rannu eu dealltwriaeth o'r profiadau mae dysgwyr yn eu cael y tu allan i amser tymor ac yn ystod gwyliau ysgol. Cafodd cyfleoedd i weithwyr ieuenctid gymryd rhan yn yr ymchwil eu cylchredeg grwp Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a Chyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru.

Cyfyngiadau a heriau

2.18 Oherwydd natur gwirfoddol cymryd rhan yn yr ymchwil, dylid nodi rhai ystyriaethau. O’r 24 o ysgolion cynradd gyda staff a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws, mae tair yn rhai cyfrwng Cymreg. O’r 26 o ysgolion uwchradd gyda staff a gymerodd rhan mewn grwpiau ffocws, mae pump yn rhai cyfrwng Cymraeg. Caiff un ysgol gynradd arall a dwy ysgol uwchradd arall eu hystyried yn rhai cyfrwng Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg.[12] Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi eu tan-gynrychioli felly (16 y cant o ysgolion a gymerodd ran) o gymharu â chyfanswm y boblogaeth (29.9 y cant o ysgolion).[13] Nid oedd y canfyddiadau o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwrth-ddweud y rheini o ysgolion cyfrwng Saesneg ac yn y mwyafrif o achosion roeddent yn gyson â’i gilydd. Lle mae canfyddiadau’n unigryw i ysgolion cyfrwng Cymraeg, dangosir hyn yn yr adroddiad.

2.19 Mae ysgolion sydd â chymeriad crefyddol hefyd wedi eu tan-gynrychioli yn yr ysgolion a gymerodd ran. Mae 8 y cant (pedair ysgol) o ysgolion gyda staff a gymerodd rhan mewn grwpiau ffocws yn ysgolion ffydd o gymharu â 14.9 y cant o’r holl ysgolion yng Nghymru.

2.20 Nid yw’r manylion ar gael am rywedd, iaith cyfrwng ysgol, gallu i siarad Cymraeg a hunan-ddynodir gan ddysgwyr, ethnigrwydd, cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, anghenion dysgu ychwanegol a Saesneg fel iaith ychwanegol ar gyfer dysgwyr a gynhwyswyd fel aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru.

Dadansoddiad

2.21 Cyn cychwyn y gwaith maes, datblygwyd canllawiau pwnc trwy fframwaith ymchwil a oedd yn dynodi cwestiynau penodol i’w defnyddio yn y canllawiau pwnc a oedd yn gysylltiedig â’r cwestynau ymchwil a’r themâu cyffredinol. Mae copïau o’r ganllawiau pwnc a

[12] Fel y rhoddir mewn manylion ysgolion yma Rhestr gyfredol o ysgolion

[13] Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Chwefror 2022 Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn tueddu i fod yn llai hefyd, gyda 23% o ddysgwyr yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

ddefnyddiwyd gyda staff ysgolion, gweithwyr ieuenctid, rhieni a dysgwyr i’w cael yn Atodiad B.

2.22 Cofnodwyd data â llaw yn ystod y grwpiau ffocws a chafodd ei anonymeiddio o fewn y canllawiau pwnc. Nodwyd pob canllawiau pwnc â chod i adlewyrchu cyfansoddiad y cyfranogwyr yn y grŵp ffocws neu’r holiadur a ddefnyddiwyd. Roedd hyn yn caniatáu i ddata gael ei ddadansoddi’n ddienw gan hefyd sicrhau gwybodaeth y gellid ei holrhain yn ôl i nodweddion perthnasol grwpiau o gyfranogwyr – er enghraifft, sicrhau y gellid priodoli datganiadau i arweinwyr ysgolion, ymarferwyr addysgu, neu staff cymorth mewn ysgol gyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg, fel bo’n berthnasol. Defnyddiwyd dull dadansoddi thematig diddwythol. Dadansoddwyd y data yn ôl cwestiwn canllawiau pwnc ac fe’i casglwyd ynghyd mewn mapiau meddwl a drefnwyd gan y cwestiynau a themâu ymchwil a benderfynwyd ymlaen llaw. Cafodd ffynonellau data (sef nodweddion allweddol grwpiau o gyfranogwyr a oedd yn mynegi barn benodol, megis rolau swyddi, iaith cyfrwng ysgol, math o ysgol a natur wledig) eu nodi, a thueddiadau’n cael eu dosbarthu mewn grwpiau gyda’i gilydd. Roedd y dull hwn yn galluogi cyd-destun gwreiddiol pob pwynt data i gael ei adnabod heb y risg o ddatgelu enw unrhyw gyfranogwr unigol.

# 3. Canfyddiadau

## Cynnydd a chyrhaeddiad

Effaith y calendr ysgol ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr

3.1 Cymysg oedd y farn ar effeithiau'r calendr ysgol ar gynnydd[14] a chyrhaeddiad dysgwyr.

3.2 Roedd sylwadau gan ymarferwyr, rhieni a dysgwyr ar yr effeithiau negyddol yn canolbwyntio ar y gwyliau haf yn achosi colled dysgu. Roedd teimlad helaeth fod dysgwyr ym mis Medi y tu ôl i'r lle'r oeddent yn academaidd ym mis Gorffennaf. Adroddwyd hyn gan staff ar draws pob mathau o ysgolion ac oedrannau – er bod hyn yn enwedig ymysg dysgwyr iau. Dywedodd athrawon ysgolion uwchradd o ddysgwyr yn cwblhau TGAU ei bod yn ddisgwyliedig y bydd cynnydd mewn rhai pynciau wedi cael ei golli dros wyliau'r haf ac mai'r anhawster oedd peidio â gwybod ymlaen llaw pa feysydd y byddai'n rhaid iddynt eu hailadrodd.

3.3 Ym marn rhieni mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch, mae gwyliau haf o chwe wythnos yn tarfu'n rhy hir ar drefn reolaidd ac yn ormod o amser draw oddi wrth ddysgu.

3.4 Roedd dysgwyr eu hunain yn cyfaddef anghofio rhywfaint o'u gwaith ysgol yn ystod gwyliau'r haf. Roedd y golled dysgu yn arbennig o amlwg mewn cofio darnau unigol o wybodaeth megis hafaliadau mathemateg, a sgiliau iaith mewn ieithoedd helbaw'r iaith(ieithoedd) a siaradir gartref.

3.5 Ymddengys nad oes fawr o effaith barhaol o golli dysgu dros yr haf. Dywedodd dysgwyr eu bod yn adennill yr hyn a gollwyd yn gyflym mewn pynciau ym mis Medi, a dywedodd rhieni plant o bob oed nad oedd eu plant yn pryderu am golli dysgu. Roedd staff ar draws pob

[14] Yn benodol, cynnydd o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Nid oedd pontio o ysgol uwchradd i goleg neu brifysgol o fewn cwmpas yr ymchwil, gan fod yr ymchwil yn canolbwyntio ar ysgolion a gynhelir yn unig; am yr un rheswm, ni chynhwyswyd ysgolion annibynnol yn yr ymchwil.

mathau o ysgolion yn nodi bod cyrhaeddiad yn ailgodi'n gyflym heb ddim effaith barhaol.

3.6 Roedd pob grŵp o rieni yn gweld yr amser a dreulir yn dal i fyny ar gychwyn y flwyddyn yn 'amser coll' o safbwynt dysgu. Yn yr un modd, caiff wythnosau olaf tymor eu gweld fel amser o lacio'n raddol lle na wneir fawr ddim dysgu ystyrlon. Dyna oedd y farn ar draws pob tymor, gyda phwyslais ar wythnosau cyntaf tymor yr Hydref, ac wythnosau olaf tymhorau'r hydref a'r haf, fel y rhai â lleiaf o werth. Roedd gweithgareddau thematig yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, megis dramâu'r geni, neu ddigwyddiadau ar ddiwedd y flwyddyn, megis dyddiau chwaraeon, yn cael eu gweld fel pethau dibwys gan rai rhieni ym mhob grŵp.

3.7 Yn ôl ymarferwyr ysgol, gan fod staff yn cynllunio eu gwaith mewn blociau o dymor, roedd yn anodd ymdrin â chynnwys mewn tymhorau byrrach (pum wythnos neu lai). Caiff tymor yr hydref sy'n gyson o hir ei ystyried gan staff ar draws pob lleoliad fel yr adeg pan fo fwyaf o gynnwys yn cael ei gyflwyno gan athrawon. Mae hyn yn amlwg i ddysgwyr eu hunain a ddywedodd ei fod yn cynyddu lefelau o flinder (gweler isod). Dywedodd staff sy'n gweithio gyda dysgwyr mewn blynyddoedd TGAU mai prif gryfder tymor yr hydref yw mai dyma'r tymor y tarfir leiaf arno gan wyliau, gwyliau banc, arholiadau neu ddigwyddiadau'r tu allan i'r ysgol (hyd at fis Rhagfyr a'r cyfnod sy'n arwain at y Nadolig).

3.8 Dywedodd dysgwyr eu bod yn teimlo o dan fwy o bwysau llwyth gwaith yn nhymor yr hydref. Cyfunir hyn gyda mis Medi yn cael ei weld fel yr amser mwyaf anodd i ddysgu, oherwydd y golled dysgu a ddisgrifir uchod. Dywedodd un dysgwr ei fod yn teimlo fel pe bai ei "ymennydd wedi peidio â gweithio" ar ôl gwyliau'r haf. Adegau eraill roedd dysgwyr yn teimlo eu bod yn anodd iddynt ddysgu oedd diwedd (pob) tymor, oherwydd teimlo'n flinedig, a thros dymor yr haf gan fod tywydd cynnydd a gyda'r nosau goleuach yn effeithio ar gwsg ac ar ganolbwyntio yn yr ystafell ddosbarth.

3.9 Mae effeithiau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â strwythur y flwyddyn ysgol bresennol. O safbwynt athrawon ysgolion uwchradd, mae'r haf yn wyliau allweddol i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiadau (blwyddyn 10+) gan y byddai cyflymder dysgu yn anghynaliadwy fel arall. Heb y gwyliau hyn y teimlad oedd y byddai cyfradd cynnydd ar hyd gweddill y flwyddyn yn arafach.

3.10 Roedd rhieni yn y grŵp economaidd-gymdeithasol is sydd â phlant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn pwysleisio pwysigrwydd y gwyliau estynedig gan ei fod yn caniatáu i "blant fod yn blant" a chael amser i ffwrdd oddi wrth yr ystafell ddosbarth.

<u>Dysgwyr yr effeithir fwyaf arnynt</u>

3.11 Roedd staff a rhieni'n amlygu mai dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yw'r rhai mae'r calendr ysgol presennol yn effeithio fwyaf arnynt. Mae hyn oherwydd y gall unrhyw effeithiau negyddol (megis colled dysgu, effeithiau ychwanegol ar lesiant) gael eu chwyddo gan fathau o anghenion dysgu ychwanegol (megis anableddau datblygiadol ac anableddau dysgu) ac oherwydd heriau sy'n unigryw i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

3.12 Mae colled dysgu i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o gymharu â'r rheini heb anghenion o'r fath yn fwy amlwg i staff a rhieni mewn lleoliadau prif ffrwd. Roedd rhieni dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwy pryderus am lithro'n ôl oherwydd colled dysgu na rhieni dysgwyr sydd heb anghenion dysgu ychwanegol ac yn dweud bod eu plant hefyd yn fwy tebygol o fod yn bryderus eu hunain am golli dysgu.

3.13 Cydnabuwyd gan rieni a staff fod yr effaith hon yn waeth oherwydd bod dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwy tebygol o gael anawsterau gyda phob gwyliau o'r ysgol a'u bod hefyd yn colli'r hyn a ddysgwyd ar raddfa gyflymach. Priodolwyd hyn i darfu ar drefn reolaidd, sy'n effeithio'n fwy ar ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, law yn llaw â mynediad cyfyng at offer a chymorth arbenigol y tu allan i leoliad ysgol. Roedd rhieni'n nodi bod adferiad

o'r golled dysgu sy'n gysylltiedig â gwyliau[15] o'r ysgol yn arafach i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; roeddent yn disgwyl y gallai dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gymryd mwy o amser i ailgodi eu cyrhaeddiad hefyd o gymharu â'u cymheiriaid.

3.14 Roedd staff ym mhob math o ysgol yn honni disgwyl lefelau uwch o golli'r hyn a ddysgwyd a'u bod yn barod am hynny. Roeddent yn pwysleisio bod ansawdd y cymorth a natur anghenion dysgu ychwanegol penodol yn ffactorau pwysicach wrth fynd i'r afael â'r golled dysgu na'r calendr ysgol.

3.15 Grŵp arall penodol yr effeithir arnynt yn waeth nag ar eu cymheiriaid yw'r rheini o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd ddifreintiedig.[16] Roedd rhieni dysgwyr oedran ysgol uwchradd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn dweud eu bod yn ei chael yn anodd cynnal momentwm dysgu yn ystod gwyliau'r haf.

3.16 Roedd staff yn adrodd bod colled dysgu yn fwy tebygol ar draws pob grŵp oedran pan nad yw rhieni sy'n gweithio gartref yn ystod yr haf, yn enwedig yn achos dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig, lle mae clybiau gwyliau penodol neu weithgareddau cyfoethogi eraill yn llai tebygol o gael eu defnyddio, oherwydd y gost sy'n gysylltiedig â hynny.

3.17 Roedd rhieni a staff yn sylweddoli nad yw pob dysgwr yn cael yr un cymorth gyda'u dysgu (a'u llesiant cyffredinol) y tu allan i'r ysgol. Roedd staff uwch dimau arwain ysgolion cynradd yn pwysleisio mai eu profiad hwy oedd nad oedd y rhieni nad ydynt yn cefnogi dysgu y tu allan i amser tymor yn rhoi cymorth yn ystod y tymor ychwaith, ond bod dysgwyr yn ystod y tymor yn elwa o allu manteisio ar gymorth staff yr ysgol.

---

[15] Adroddwyd hyn mewn perthynas â phob toriad o'r ysgol / gwyliau ysgol. Roedd rhai rhieni dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn adrodd iddynt sylwi ar golli dysgu yn eu plentyn ar ôl gwyliau hanner tymor hyd yn oed.

[16] Dysgwyr o deuluoedd mewn graddau cymdeithasol NRS C2, D ac E; dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (ac eithrio prydau ysgol am ddim i bawb); dysgwyr mewn cymdogaethau mwy difreintiedig ar sail dangosyddion ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Roedd ymarferwyr ysgol hefyd yn adnabod dysgwyr mewn cartrefi rhiant sengl.

Effeithiau ar ddysgwyr mewn gwahanol gyfryngau iaith

3.18 O safbwynt staff, mae colled mewn sgiliau iaith i bawb sy'n dysgu trwy wahanol gyfrwng o ran iaith i'r brif iaith a siaredir gartref. Y farn yw bod hyn yn debyg i'r golled mewn sgiliau eraill ac ni thynnwyd sylw ato fel mater o bryder penodol.

3.19 Nodwyd bod amser ym mis Medi yn cael ei golli mewn meysydd eraill o ddysgu pan fod angen ailgaffael sgiliau iaith, gan fod yn rhaid i hyn gael blaenoriaeth. Teimlai ysgolion cyfrwng Cymraeg fod llai o amser i ymdrin â'r cwricwlwm nag yn yr ysgol cyfrwng Saesneg cyfatebol, oherwydd yr amser a dreulir yn ymgyfarwyddo â'r iaith ar gychwyn y tymor. Dywedodd staff uwch dimau arwain mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fod staff hefyd yn aml yn anghyfarwydd â defnyddio Saesneg ar ôl gwyliau, sy'n dwysáu'r bwlch mewn cyfathrebu rhwng dysgwyr a staff ysgolion.

3.20 Roedd ysgolion cyfrwng Saesneg yng ngogledd Cymru yn adrodd am brofiadau tebyg gyda sgiliau Saesneg i ddysgwyr sydd o gartrefi Cymraeg. Roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned hefyd yn gweld gostyngiad yn y gallu i ddefnyddio Saesneg pan oedd dysgwyr yn dychwelyd ar ôl y gwyliau haf.

Effeithiau gwyliau Pasg symudol

3.21 Gall Dydd Sul y Pasg ddisgyn ar unrhyw ddyddiad rhwng Mawrth 22$^{ain}$ ac Ebrill 25$^{ain}$ sy'n peri y gall diwrnod olaf tymor y Gwanwyn ddisgyn ar unrhyw ddyddiad rhwng 13$^{eg}$ Mawrth ac 16$^{eg}$ Ebrill (cynhwysol). Yn ymarferol, dywedod staff eu bod yn addysgu cynnwys y pwnc yn yr un nifer o wythnosau waeth beth fo dyddiad y Pasg a'r gwyliau hanner tymor. Fodd bynnag, teimlai rhai staff ac arweinwyr mewn ysgolion uwchradd fod anghysondeb hyd tymhorau yn cael effaith benodol yn y cyfnod sy'n rhagflaenu arholiadau o ran adolygu a'r teimlad o fod yn barod ar gyfer arholiadau.

3.22 Roedd uwch dîm arwain ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn adrodd am anghysondeb yn y cymorth a gynigir i ddysgwyr yn ystod gwyliau'r

Pasg o fewn lleoliadau. Mae’n ddibynnol iawn ar agwedd athrawon unigol a’u parodrwydd i roi amser gwyliau i gynnig sesiynau adolygu a chymorth arall; y farn oedd bod hyn yn annheg i ddysgwyr gan na fyddai pawb yn derbyn yr un cyfleoedd. Roedd staff mewn swyddogaethau eraill yn awgrymu mai cyfrifoldeb athro da yw cefnogi dysgwyr hyd at gyfnod yr arholiadau, gan ddisgrifio’n glir beth sy’n mynd i ddigwydd hyd at hynny, a all helpu dysgwyr gydag adolygu, waeth pa bryd fydd gwyliau.

3.23 Yn fwy cyffredinol, teimlai ymarferwyr, yn enwedig staff uwch dimau arwain o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, fod “cael gwyliau yng nghanol arholiadau yn chwerthinllyd” ac yw hyn wedi ei gynllunio’n strategol. Roedd staff yn cydnabod nad yw, i lawer o ddysgwyr, gwyliau hanner tymor yr haf yn wyliau mewn gwirionedd gan fod yr amser yn cael ei dreulio’n paratoi ac adolygu ar gyfer arholiadau.

3.24 Er bod rhai eithriadau, roedd y mwyafrif o ddysgwyr yn dweud bod yn well ganddynt adolygu a pharatoi ar gyfer arholiadau yn yr ysgol gyda chymorth eu hathrawon, yn hytrach na gartref yn ystod cyfnodau gwyliau.

3.25 Yn olaf, dywedodd athrawon fod rhaniad yn tueddu i fod rhwng y rheini y disgwylir iddynt wneud yn dda mewn arholiadau, sydd wedyn yn adolygu mwy gartref, a’r rheini na ddisgwylir iddynt gyflawni cystal mewn arholiadau, sy’n llai tebygol o adolygu gartref. Felly, mae’r grŵp olaf yn cael cyfle gwell pan maent yn yr ysgol yn union cyn arholiadau ac o dan anfantais pan fo gwyliau’r Pasg yn hwyrach. Roedd hefyd sylwadau gan athrawon fod lleisant dysgwyr mwy abl a thalentog yn cael ei gefnogi’n well wrth adolygu yn yr ysgol yn union cyn arholiadau.

3.26 Nid oedd dim arwydd fod cyfnod byrrach o amser addysgu yn nhymor yr haf yn effeithio’n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol o ddysgwyr mewn grwpiau blwyddyn eraill. Gwnaed rhywfaint o gysylltiad gan bob mathau o staff ar y cysylltiadau rhwng lefelau uchel o amddifadedd, neu faint o gymorth ar gyfer dysgu sydd ar gael gartref, a faint o

amser roedd dysgwyr yn ei dreulio ar waith ysgol yn ystod gwyliau'r Pasg. Roedd lefelau is o amddifadedd a mwy o gymorth gartref yn gysylltiedig â mwy o gwaith ysgol yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau'r Pasg.

**Blinder a llesiant**

<u>Blinder a dysgwyr</u>

3.27 Roedd cysylltiad agos rhwng y calendr ysgol a blinder i ddysgwyr, staff a rhieni. Mae blinder yn uwch mewn rhai adegau penodol o'r flwyddyn na'i gilydd.

3.28 Mae blinder yn digwydd yn rheolaidd ar bwyntiau penodol. Roedd dysgwyr yn sôn yn gyffredinol am deimlo'n flindedig ar ddiwedd pob tymor. Dywedodd rheini ei bod yn amlwg fod pawb o'r plant yn teimlo'n flinedig wrth i ddiwedd y tymor ddynesu.

3.29 I ddysgwyr, mae tymhorau'r hydref a'r haf yn teimlo'n hir, ac mae teimladau o flinder yn fwy yn ystod y tymhorau hyn. Dywedodd dysgwyr bod eu hathrawon yn chwarae rhan bwysig mewn cyfrannu at deimladau o flinder yn nhymor yr hydref a bod hyn yn gysylltiedig â hyd y tymor, oherwydd bod mwy o gynnwys addysgu yn cael ei gyflwyno yn yr hydref. Dywedodd dysgwyr eu bod yn teimlo'u hunain yn cael eu gorlwytho yn nhymor yr hydref, yn enwedig mewn pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth. Dywedwyd bod tywydd poethach, ac anhawster wrth gysgu yn ystod misoedd yr haf yn cyfrannu at deimladau o flinder yn nhymor yr haf. Dywedodd dysgwyr eu bod yn teimlo hefyd eu bod yn cael llai o gefnogaeth yn yr haf gan fod yr athrawon yn ymddangos fel pe na baent yn canolbwyntio cymaint.

3.30 Roedd staff yn gyffredinol yn dweud bod blinder yn llesteirio dysgu erbyn diwedd tymor yr hydref. Roedd staff uwch dimau arwain ysgolion cynradd yn sylwi'n arbennig ar hyn ymhlith dysgwyr mewn gofal cofleidiol, a all brofi "dyddiau hirach" na phlant eraill. I staff uwch dimau arwain ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, roedd y gwyliau haf

chwe wythnos yn cael eu hystyried yn ddigonol i ddysgwyr adfer o flinder ar ddiwedd y flwyddyn ysgol dros y misoedd cynhesach.

3.31 Dywedodd athrawon mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig fod blinder yn cael effaith tua chwe wythnos i mewn i'r tymor ysgol. Roedd hyn yn cael ei weld yn neilltuol o amlwg i ddysgwyr niwroamrywiol a'r rheini sy'n teithio ymhellach i'r ysgol, er enghraifft dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu'r rheini sy'n gorfod teithio ymhellach i gyrraedd ysgolion arbennig. Gall rhieni dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol deimlo'n wael yngylch tymor yr hydref oherwydd ei hyd. Rhoddodd un rhiant enghraifft o'r pryder maent yn ei deimlo ynghylch tymor yr hydref oherwydd fod blinder yn ysgogi trawiadau i'w plentyn sydd ag epilepsi.

<u>Blinder ac ymarferwyr</u>

3.32 Roedd pawb o'r staff yn dweud bod strwythur presennol y flwyddyn ysgol yn rheswm dros flinder sy'n arwain at deimlad o fod wedi ymlâdd gyda gwyliau byr sefydlog wedi eu dosbarthu'n anwastad. Yn aml, gwyliau'r haf yw unig gyfle a gânt i roi'r gorau i weithio, ac mae rhai o'r staff – gan gynnwys aelodau uwch dimau arwain a staff sy'n gyfrifol am arholiadau – mewn gwirionedd yn parhau i weithio am o leiaf ran o wyliau'r haf. Yn yr un modd, mae rhai staff cymorth naill ai'n cael eu contractio dros y gwyliau fel rheolwyr safleoedd neu'n gweithio mewn swyddi eraill yn ogystal, fel mewn clybiau gwyliau.

3.33 Yn gyffredinol (ac a nodwyd gryfaf gan staff mewn unedau cyfeirio disgyblion), mae blinder mewn staff yn gysylltiedig â lefelau o flinder mewn dysgwyr. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwy blinedig, mae staff yn gweld cynnydd mewn problemau cymdeithasol ac ymddygiadol, sy'n rhoi pwysau mwy fyth ar staff eu hunain i fod ar gael, i gefnogi a bod yn wydn. Mae hyn yn cynyddu pwysau'r diwrnod gwaith ac yn arwain at deimladau dwysach o flinder mewn staff. Ar adegau pan fod blinder staff yn fwy dywedwyd fod y gofynion o ran gwaith yn gallu dod yn ddwysach.

3.34 Nodwyd ar draws pob mathau o leoliadau fod tymor yr hydref yn rhy hir. O gymharu, gall adegau eraill o'r flwyddyn megis tymor yr haf deimlo'n "llac" i staff mewn ysgolion cynradd gyda llai o lwyth gwaith. O gymharu, dywedodd athrawon mewn ysgolion uwchradd fod blinder yn dal yn uchel tuag at ddiwedd tymor yr haf oherwydd yr llwyth gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig ag arholiadau.

3.35 Roedd athrawon ym mhob ysgol uwchradd yn disgrifio'r Pasg fel y gwyliau "gorau" ar gyfer ymdrin â blinder, gyda digon o amser i "ddal i fyny" ar waith a dal i gael rhywfaint o amser oddi wrth y gwaith. Roedd llawer yn amlygu salwch aml (gweler isod) ar gychwyn pob gwyliau fel rhywbeth oedd yn rhwystro gwyliau byrrach rhag datrys lefelau o flinder.

3.36 Dywedodd staff ar draws pob mathau o ysgolion, gan gynnwys uwch dimau arwain a staff cymorth, fod anhyblygrwydd yn y proffesiwn addysgu a diffyg cyfleoedd i gymryd gwyliau yn ystod amser tymor yn broblem sy'n cyfrannu at flinder. Y farn oedd bod yr anhyblygrwydd hwn hefyd yn cyfrannu at broblemau llesiant ymysg y gweithlu addysgu, fel y trafodir isod.

<u>Llesiant dysgwyr</u>

3.37 Roedd pryder helaeth ymysg staff a rhieni pob grŵp o ddysgwyr dan anfantais. Grwpiau penodol o ddysgwyr a amlygwyd oedd y rheini a oedd dan anfantais cymdeithasol ac economaidd, y rheini o deuluoedd a oedd yn cam-drin, a chartrefi lle mae dysgwyr yn brin o brydau a strwythur cyson. Roedd staff uwch dimau arwain mewn ysgolion uwchradd a chynradd yn glir eu barn nad yw gwyliau haf chwe-wythnos yn cefnogi llesiant dysgwyr yn yr amgylchiadau hynny. Cydnabuwyd hefyd fodd bynnag, y byddai cael dysgwyr sydd o dan anfantais yn yr ysgol drwy gydol y flwyddyn yn wahanol i'w cymheiriaid yn peri teimlad o gywilydd cymdeithasol iddynt ac yn effeithio'n negyddol ar eu llesiant. Yn gyffredinol, teimlai staff fod pob cyfnod gwyliau drwy gydol y flwyddyn yn debygol o olygu heriau i

lesiant dysgwyr mewn cartrefi incwm isel gyda’r heriau hynny’n cynyddu yn ystod gwyliau hirach.

3.38 Roedd staff o’r farn ei bod yn anodd i ddysgwyr ailaddasu i drefn reolaidd ysgol ym mis Medi ar ôl cyfnod o chwe wythnos heb strwythur ysgol (neu’n hirach i ddysgwyr ag arholiadau TGAU a Lefel AS). Roedd rhieni dysgwyr o oed ysgol uwchradd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn adlewyrchu hyn, gan nodi bod cynnal trefniadau rheolaidd a rhoi strwythur (ee trwy brydau bwyd) yn gallu bod yn anodd. Gall diffyg strwythur effeithio hefyd ar drefn reolaidd cwsg dros yr haf, gyda chysylltiad yn cael ei wneud rhwng cwsg a llesiant.

3.39 Roedd diflastod ymysg dysgwyr yn bryder ymysg rhieni a ddywedodd na allant fforddio darparu gweithgareddau ystyrlon i’w plant dros y gwyliau. Pwysleisiwyd hyn gan rieni grwpiau oedran cynradd ac uwchradd economaidd-gymdeithasol is, a rheini dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob lleoliad. Costau gofal plant oedd y prif ffactor a briodolwyd i hyn. Hyd yn oed i rieni mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch, mae’r cynnydd ym mhrisiau gwyliau yn gosod cyfyngiadau ar hyn maent yn ei wneud yn ystod gwyliau. I grwpiau economaidd-gymdeithasol is, nid oedd gwyliau teulu yn ystod gwyliau ysgol yn cael ei ystyried yn bosibl oherwydd costau. Teimlai rhieni dysgwyr iau fod diffyg pethau i’w wneud i ddysgwyr iau. I rieni sydd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol y teimlad oedd fod rhy ychydig o gyfleoedd i’w plant ddilyn gweithgareddau sy’n darparu’n effeithiol ar gyfer eu hanghenion penodol. Lle caiff gweithgareddau i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu darparu, gallant olygu costau uchel yn ariannol ac o ran trafnidiaeth. Yn ogystal, mae plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn aml yn teithio ymhellach i fynychu ysgolion arbennig neu ysgolion prif ffrwd sydd â darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, sy’n golygu bod ganddynt lai o ffrindiau lleol ar gael i gymdeithasu â hwy yn ystod gwyliau’r haf. I rieni sy’n siarad Cymraeg, neu sydd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg,

mae gwahaniaeth rhwng y nifer llai o weithgareddau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â'r rheini a gynigir yn Saesneg.

3.40 Dywedodd rhieni fod teimladau o straen gan rieni yn effeithio ar lesiant eu plant, a chan fod hynny'n cynyddu dros y gwyliau mae effaith negyddol ar y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn. Un ffactor cyffredin a bwysleisiwyd gan bob rhiant oedd anhawster cydamseru gwyliau rhieni o'u gwaith yn ystod gwyliau ysgol. Dywedwyd bod y gwahaniaeth rhwng hyd yr amser y tu allan i'r ysgol i ddysgwyr (13 wythnos) o gymharu â gwyliau blynyddol rhieni sy'n gweithio (pum wythnos yn arferol) yn gwneud rhieni'n ddibynnol ar ofal plant, a oedd yn golygu ychydig iawn o elw ariannol wrth aros yn y gwaith ar yr adegau hynny.

3.41 Dywedodd rhai rhieni eu bod, mewn tywydd braf yn ystod yr haf, yn gallu treulio amser yn yr awyr agored gyda'u plant. Dyweodd eraill hefyd fod lefelau ynni eu plant yn gyffredinol dda dros chwe wythnos gwyliau'r haf.

3.42 Dywedodd gweithwyr ieuenctid nad ydynt yn gweld cynnydd mewn materion diogelu y tu allan i amser tymhorau ysgol, ond roedd llesiant yn bryder yn ystod gwyliau ysgol oherwydd lleihad mewn mynediad at wasanaethau i bobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd hyn oherwydd bod ysgolion yn cael eu defnyddio'n aml fel canolfannau ar gyfer gwasanaethau, neu oherwydd bod staff yn y gwasanaethau hyn hefyd yn gweithio i gontractau amser tymor yn unig.

3.43 Roedd rhieni dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn pwysleisio bod tarfu ar drefn reolaidd dysgwyr yn cael effaith negyddol fawr ar lesiant y dysgwr a'u teuluoedd. Roedd hyn yn cael ei bwysleisio'n benodol yn achos dysgwyr niwroamrywiol. Nodwyd bod unrhyw newid mewn trefn arferol (gan gynnwys gwyliau hanner tymor wythnos o hyd) yn cael effaith negyddol. Mae'r tarfu ar y drefn arferol, a'r effaith negyddol ar lesiant, yn digwydd ddwywaith gyda phob gwyliau; unwaith ar y cychwyn, ac wedyn ar ddiwedd y gwyliau pan fo'r dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol.

3.44 Er nad oedd hyn yn cael ei briodoli i'r calendr ysgol ei hun ond i'r adeg gyffredinol o'r flwyddyn (sef y gaeaf), roedd pawb o'r rhieni yn nodi mwy o salwch mewn dysgwyr yn y cyfnod sy'n arwain at wyliau'r Nadolig.

3.45 Ym marn athrawon, gall y calendr gael mwy o effaith ar ddysgwyr â Saesneg fel Iaith Ychwanegol sy'n ymweld â theuluoedd dramor. Dywedodd rhai ei bod yn gyffredin i'r dysgwyr hyn ymestyn gwyliau'r haf trwy adael cyn diwedd tymor yr haf neu ddychwelyd ar ôl cychwyn tymor yr hydref. Dywedodd rheini sy'n ymweld â theuluoedd dramor nad yr haf yw'r amser gorau i wneud hynny oherwydd amodau tywydd mewn gwledydd yr ymwelir â hwy.

3.46 Pan ofynnwyd iddynt sut maent yn teimlo ynghylch rhannau penodol o'r flwyddyn ysgol, ymatebodd y mwyafrif o ddysgwyr mai tymor yr haf oedd y gorau ganddynt. Roedd y gweithgareddau awyr agored sydd ar gael yn ystod y tymor hwn a'r rheolau llacach ynghylch gwisg ysgol yn cyfrannu at hyn. I ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiadau, fodd bynnag, mae tymor yr haf yn gyfnod o fwy o straen a phwysau. Caiff tymor yr hydref ei weld yn ffafriol hefyd oherwydd y teimlad o ddechrau newydd yn ystod mis Medi ac edrych ymlaen at y Nadolig yn yr hanner olaf. Nodwyd y gall cychwyn y flwyddyn ysgol deimlo'n anodd hyd nes bydd dysgwyr wedi setlo i drefn reolaidd unwaith eto. Yn gyffredinol, tymor y gwanwyn oedd yr un yr hoffent leiaf, ond nodwyd rhai pethau cadarnhaol, megis Eisteddfodau.

3.47 Ffactorau sy'n effeithio ar farn dysgwyr o wahanol dymhorau yw'r tywydd nodweddiadol a ddisgwylir yn ystod y tymhorau hynny, gweithgareddau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, eu llwyth gwaith, a hyd y tymor. Roedd dysgwyr yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau, gweithgareddau a gwyliau a oedd ar ddod er mwyn gwneud y tymor ysgol yn fwy cyffrous.

3.48 Roedd rhieni'n pwysleisio bod llai o ryngweithio cymdeithasol i ddysgwyr yn ystod gwyliau'r haf, a bod hyn yn fwy amlwg i ddysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a'r rheini sy'n byw mewn

ardaloedd gwledig. I rieni a dysgwyr, roedd dechrau tymor yr hydref yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol, a oedd yn cynyddu cymdeithasu gyda chymheiriaid.

3.49 Dywedodd dysgwyr hefyd y gall yr hyn mae eu hathrawon yn ei ddweud a'i wneud effeithio ar deimladau o lesiant. Cafodd pwysau amser, megis dweud nad oes llawer o amser i ymdrin â deunydd pwnc, ei nodi fel rhywbeth sy'n cael effaith neilltuol o negyddol.

3.50 Dywedodd athrawon fod dysgwyr mwy abl a thalentog (MAT) yn tueddu i fod angen mwy o gefnogaeth gyda gorbryder, gan eu bod yn fwy ymwybodol o bwysau arholiadau. Mae dysgwyr o'r fath yn fwy tebygol o adolygu gartref ond maent yn dal i fod angen cymorth staff yn yr ysgol i'w cyfarwyddo i fod yn effeithiol a lliniaru teimladau o orbryder. Dywedodd dysgwyr yn gyffredinol fod yn well ganddynt ddysgu ac adolygu yn yr ysgol, yn enwedig ar ôl y profiad o ddysgu estynedig gartref yn ystod brig y pandemig Covid-19.

Llesiant ymarferwyr

3.51 Mae cysylltiad clir i ymarferwyr rhwng y calendr ysgol a'u llesiant eu hunain.

3.52 Roedd yn cael ei dderbyn yn helaeth ymysg pawb o'r staff y bydd cychwyn unrhyw gyfnod gwyliau yn eu gweld nhw'n dioddef gyda salwch. Yn ystod hanner-tymhorau hirach mae mwy o achosion o salwch staff, sydd wedyn yn aros yn sâl am yn hirach, gyda hyn yn cyfrannu ar lefelau o straen a deimlir gan staff. Nodwyd gan staff uwch dimau arwain mewn ysgolion cynradd fod lefel uwch o salwch ymysg staff yn ogystal â dysgwyr yn ystod tymor yr hydref wrth i'r Nadolig ddynesu. Roedd rhai staff yn nodi y gallai'r cynnydd cyffredinol mewn salwch mewn cymdeithas yn ystod y rhan honno o'r flwyddyn chwarae rhan fel ffactor yma, fel y gall cydweithwyr sy'n dal ati er gwaethaf salwch ac aros yn yr ysgol, neu rieni'n anfon plant sy'n sâl i'r ysgol.

3.53 I rai staff mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig doedd dim patrwm amlwg rhwng hyd tymhorau ac absenoldebau staff. I eraill

roedd patrwm clir. Roedd unedau cyfeirio disgyblion yn adrodd bod presenoldeb staff yn gwell ar gychwyn tymor, ac esboniodd rhai staff uwch dimau arwain ysgolion uwchradd fod y symiau uchaf a gaiff eu gwario o gyllidebau ysgol ar staff cyflenwi o ddechrau mis Tachwedd hyd at ddim mis Chwefror.

3.54 Mae lefelau o straen sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith hefyd yn cynyddu gydag absenoldeb staff. Gwnaed pwyntiau gan staff uwch dimau arwain mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fod cael hyd yn oed ychydig iawn o aelodau staff i ffwrdd o'r gwaith oherwydd straeon yn gallu cael effaith sylweddol ar gapasiti a llwyth gwaith y staff sy'n dal yn yr ysgol.

3.55 Dywedodd athrawon mewn ysgolion uwchradd sy'n gweithio gyda dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fod eu swydd yn dod yn llawer mwy anodd ar ôl tua chwe wythnos i mewn i'r tymor ysgol, sy'n effeithio'n negyddol ar eu llesiant. Dywedwyd mai achos hyn oedd y cynnydd mewn blinder ymysg dysgwyr sy'n dechrau cael effaith ar y pwynt hwn.

3.56 Mae llwyth gwaith staff ysgolion hefyd yn ffynhonnell pwysau. Yn ôl datganiadau gan uwch dimau arwain, mae traean o athrawon yn gadael y proffesiwn o fewn pum mlynedd, oherwydd y llwyth gwaith a diffyg amser rhydd ar gyfer seibiant.[17] Dywedodd athrawon ysgolion uwchradd fod gwyliau pythnefnos yn helpu cydbwyso llwyth gwaith yn well na gwyliau un-wythnos, a bod gwyliau un-wythnos yn dod yn fwyfwy anodd wrth i staff fynd yn hŷn.

3.57 Roedd rhai staff, mewn un grŵp ffocws o ymarferwyr ysgol wedi ei ffurfio o gymysgedd o rolau, gan gynnwys staff cymorth, athrawon sydd wedi gwasanaethu ers amser maith, ac arweinwyr sydd ar ail yrfa, yn dweud y byddent yn ystyried gadael y sector pe bai gwyliau'r haf yn cael eu byrhau. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y

[17] Rhwng 2017-2021 roedd 20.64% o'r holl staff a adawodd addysgu wedi gwneud hynny yn y 5 mlynedd gyntaf. O'r staff hynny na chymerodd swyddi heb fod yn addysgu mewn addysg nac a ymddeolodd yn gynnar, fe wnaeth 30.73% adael yn y 5 mlynedd gyntaf.

gred fod y gwyliau haf yn angenrheidiol er mwyn bod yn athro effeithiol gweddill y flwyddyn, ac y byddai gofynion o'r llwyth gwaith presennol yn ystod yr haf yn golygu y byddai unrhyw amser a fyddai'n cael ei dynnu o wyliau'r haf yn lleihau ymhellach fyth yr amser pan fo athrawon yn wirionedd 'ar eu gwyliau'.

3.58 Gall y calendr ysgol effeithio ar dâl rhai o'r staff. Oherwydd gwahaniaethau mewn contractau, mae rhai cynorthwywyr addysgu a staff cymorth eraill nad ydynt yn cael eu talu yn ystod gwyliau hir.[18] Roedd staff uwch dimau arwain mewn ysgolion cynradd yn dweud bod staff cyflenwi yn ffurfio rhan gynyddol o'r gweithlu, gan gynnwys swyddi arweinwyr; nid yw staff cyflenwi chwaith yn cael eu talu dros y gwyliau. Felly, yn ystod y gwyliau ysgol, mae grwpiau lluosog o staff ysgolion nad ydynt yn ennill. Dywedodd staff ym mhob rôl fod y gwyliau haf yn gyfnod hir o amser i hyn fod yn digwydd.

3.59 Mae strwythur y calendr ysgol yn gyffredinol gadarnhaol pan fo gwyliau staff ysgolion a'u plant oedran ysgol sydd mewn gwahanol ysgolion yn cydamseru. Fodd bynnag, gall fod yn anodd i staff pan nad yw dyddiau hyfforddiant neu wyliau ysgol yn cydamseru ledled Cymru. Roedd hyn yn broblem a nodwyd hefyd fel un sy'n effeithio ar staff gerllaw'r ffin â Lloegr. Mae anawsterau weithiau hefyd, a nodwyd gan staff cymorth, pan nad yw aelodau o'r teulu sy'n gweithio y tu allan i ysgolion yn gallu cymryd gwyliau blynyddol yn ystod gwyliau ysgol oherwydd polisïau gwyliau blynyddol eu cyflogwyr, y dywedwyd eu bod yn effeithio ar lesiant.

3.60 Tynnwyd sylw at y gwyliau haf chwe wythnos fel amser pan y gall staff ysgolion dreulio amser yn canolbwyntio ar eu plant a'u teuluoedd eu hunain. Y teimlad oedd bod graddau'r llwyth gwaith yn rhwystro hyn yn ystod gwyliau eraill. Yn ymarferol, mae'r gwyliau haf chwe wythnos yn aml yn fyrrach i'r rheini mewn rolau arwain a rhai rolau

[18] Mae contractau addysgu yn arferol yn talu cyflog pro-rata mewn 12 rhan-daliad y flwyddyn, felly mae athrawon yn derbyn tâl bob mis. Gall staff cymorth gael trefniadau tebyg, ond dywedwyd mewn grwpiau ffocws ei bod yn fwy arferol i dderbyn tâl dim ond am yr oriau a weithiwyd mewn mis. Mae hyn yn arwain at amrywiadau yn y symiau a delir pob mis ac at beidio â derbyn dim tâl am y rôl ym mis Awst.

cymorth (gan gynnwys staff swyddfeydd ysgol a rheolwyr safle) gan arwain at gyn lleied â dwy wythnos yn cael eu treulio oddi wrth y gwaith.

Effeithiau blinder ar allu dysgwyr, eu hagwedd at ddysgu, eu llesiant a'u presenoldeb

3.61 Cafodd blinder ei amlygu gan ddysgwyr fel y prif ffactor sy'n effeithio ar ddysgu. Dywedwyd bod lefelau uwch o flinder yn cyfrannu at ddiflastod, diffyg canolbwyntio, a'i gwneud yn haws i eraill dynnu eu sylw.

3.62 O safbwynt dysgwr, yr amser mwyaf amlwg am absenoldebau yw yn nhymor yr hydref. Mae'n hysbys fod cyfraddau salwch yn uwch, a dywedodd dysgwyr hefyd eu bod yn fwy tebygol o "beidio â thrafferthu" mynd i'r ysgol yn agos i'r Nadolig. Nodwyd ei bod yn gyffredin i rai dysgwyr fynd ar wyliau teuluol yn ystod tymor yr haf neu'n gynnar yn nhymor yr hydref oherwydd prisiau is. Roedd rhieni a staff hefyd yn ymwybodol iawn o hyn. Roedd rhieni a staff yn esbonio bod yr arbedion costau i deuluoedd yn llawer mwy na digon i wrthbwyso unrhyw ddirwy fel cosb am absenoldebau heb ganiatâd.

3.63 Roedd absenoldeb nad oedd yn ymwneud â salwch yn cael ei nodi gan bawb o'r rhieni i fod ar ei uchaf ychydig cyn y Nadolig ac yn ystod diwedd tymor yr haf. Dywedwyd mai ffactorau sy'n achosi hyn yw cost gwyliau (sef eu bod yn rhatach cyn y gwyliau ysgol), a gwerth canfyddedig is addysgu a dysgu yn ystod yr wythnosau hyn (gweler uchod). Mae hyn, ynghyd ag arwyddion gweladwy o flinder yn eu plant, yn arwain at i rieni fod â mwy o gydymdeimlad at ddiffyg awydd eu plant i fynd i'r ysgol (ee ym mis Rhagfyr). Pan fo diwedd tymor yr hydref yn hynod o agos i Ddydd Nadolig, gweler absenoldebau heb ganatiâd yn codi gan y bydd teuluoedd sy'n teithio am y gwyliau yn gadael yn gynnar.

3.64 Roedd gweithwyr ieuenctid yn amlygu'r cyfnod yn union ar ôl y Nadolig fel adeg o niferoedd uchel o broblemau'n ymwneud â diogelu,

sy'n lleihau os yw ysgolion yn dychwelyd yn gyflym ar ôl Dydd Nadolig.

3.65 Roedd rhieini dysgwyr ysgolion cynradd sydd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn mynegi gwrthwynebiad cryf i wobrau presenoldeb neu orbwysleisio pwysigrwydd presenoldeb. Y teimlad oedd bod pwyslais o'r fath yn methu ag ystyried iechyd y dysgwr ac yn annog dysgwyr i deimlo'n euog os ydynt yn syrthio'n wael. Mae tystiolaeth ehangach yn dangos yn glir y berthynas rhwng lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad unigol, gyda phresenoldeb is yn arwain at gyrhaeddiad is.[19]

3.66 Dywedodd rhieni dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd eu bod yn teimlo nad yw strwythur y flwyddyn ysgol yn gefnogol i absenoldebau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol eu plant. Mewn rhai achosion, nid yw staff ysgol yn ymwybodol o amgylchiadau a phrosesau ac maent yn marcio'r dysgwyr fel absennol yn hytrach na nodi eu bod ag apwyntiadau meddygol. Mewn achosion eraill, y teimlad oedd bod gormod o ryddid yn cael ei roi gan yr ysgol i rieni gymryd eu plentyn allan o'r dosbarth, sy'n creu'r argraff nad oes ots gan staff am gyrhaeddiad dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac am y gwersi maent wedi eu colli.

Blinder, llesiant ac athrawon newydd gymhwyso

3.67 Caiff gwyliau'r haf ei weld i raddau helaeth gan uwch dimau arwain ac athrawon fel caffaeliad hanfodol i annog recriwtio i'r sector addysg. Yn ystod y gweithdai, roedd staff i raddau helaeth yn gweld y gwyliau haf chwe wythnos fel cymhelliad pwysig, sy'n darparu cyfnod gwyliau estynedig, di-dor, nad oes unrhyw sector cyflogaeth arall yn ei gynnig. Mae hyn er gwaethaf disgrifiad gan bod bawb o'r staff ym mhob rôl mai anaml y mae gwyliau'r haf yn wyliau chwe wythnos yn ymarferol. Nodwyd y fantais bod gwyliau chwe wythnos yn cyfateb ag anghenion teuluol (sef ei fod yn cydamseru i alluogi athrawon i edrych ar ôl eu

[19] Pam fod presenoldeb yn yr ysgol mor bwysig?

plant eu hunain), fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion deuai staff i'r casgliad y byddai hyn yr un mor wir pe bai dyddiadau a hyd gwyliau yn wahanol. Cafodd atyniad y gwyliau haf chwe wythnos ei drafod yn aml mewn perthynas â phryderon ehangach ynghylch recriwtio. Roedd recriwtio yn gyffredinol yn cael ei nodi fel rhywbeth cynyddol anodd, hyd yn oed i ysgolion ag amryw ffactorau canfyddedig o'i plaid, megis lleoliad, canlyniadau arholiadau, ac adroddiadau arolygiadau ffafriol gan Estyn.

3.68 Mynegwyd yn aml gan uwch dimau arwain ac athrawon nad yw'r toriadau aml yn wyliau yn ymarferol a'u bod mewn gwirionedd yn cael eu defnyddio gan athrawon i ddal i fyny â gwaith gweinyddol. Nid oedd effaith hyn ar lesiant athrawon newydd gymhwyso yn cael ei weld gan staff mwy profiadol yn cael ei weld i fod yn wahanol i'r effaith mae'n ei gael ar lesiant aelodau eraill o staff. Fodd bynnag, yn ôl aelodau timau uwch reolwyr mae'n ffactor yn y nifer o staff sy'n gadael y proffesiwn yn gynnar a gall fod yn cyfrannu'n negyddol at yr her o gadw athrawon newydd gymhwyso.

3.69 Mae ffactorau heblaw'r calendr ysgol yn cael eu gweld yn fwy helaeth fel rhai pwysicach o safbwynt recriwtio a chadw. Roedd llwyth gwaith trwm yn cael ei ddisgrifio fel ffactor pwysig gan staff cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Yn ôl athrawon uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd camdriniaeth gan ddysgwyr a rhieni, a straeon negyddol am y sector addysg a adroddir yn y wasg, yn rhoi pobl yn erbyn ymuno â'r proffesiwn ac yn gwthio'r staff presennol allan.

**Ymddygiad dysgwyr**

3.70 Wrth i flinder gynyddu, mae achosion o ymddygiad sy'n tarfu ar eraill hefyd yn cynyddu, yn ôl staff ym mhob ysgol. Dywedodd staff timau uwch reolwyr mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg fod hyn yn wir am bob tymor ac nad oedd yn benodol i unrhyw ran o'r flwyddyn. Roedd yr holl grwpiau rhieni'n cytuno, gan danlinellu bod gwahaniaeth

amlwg yn ymddygiad eu plant ar ddiwedd tymhorau. Mae'r dysgwyr eu hunain yn sylwi ar hyn yn ogystal, gyda symptomau'n cynnwys anawsterau wrth ganolbwyntio a mwy o siarad gyda ffrindiau yn y dosbarth.

3.71 Roedd athrawon ym mhob sector ysgolion[20] yn sylwi bod ymddygiad yn gyffredinol wael ym mis Medi, hyd nes mae dysgwyr wedi arfer bod yn ôl yn y dosbarth. Ar y llaw arall, roedd rhai arweinwyr ysgolion uwchradd yn sôn am gyfnod "mis mêl" ar ôl gwyliau eraill, gyda gwell ymddygiad yn y pythefnos gyntaf o gymharu â gweddill y tymor.

3.72 Dywedodd athrawon ysgolion cynradd fod rhai dysgwyr yn cael anawsterau gyda'u hymddygiad yn y cyfnod sy'n arwain at bob gwyliau, neu ar ôl gwyliau, gan gynnwys gwyliau hanner tymor, gwyliau banc, neu hyd yn oed benwythnosau. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn dysgwyr o gefndiroedd economaidd ddifreintiedig ond nid yw wedi ei gyfyngu i ddysgwyr o'r fath.

3.73 O ran gwyliau'r haf, nid oedd gweithwyr ieuenctid yn teimlo bod unrhyw broblemau ymddygiad amlwg nac annormal yn y cyfnod hwnnw. Roedd gweithwyr ieuenctid yn pwysleisio, fodd bynnag, bwysigrwydd ysgolion fel lle i dynnu sylw at bryderon ynghylch diogelu ac o riportio hynny. Yn yr ystyr hon, gall diffyg digwyddiadau a gaiff eu cofnodi neu ddiffyg gwybodaeth amdanynt hefyd beri problemau. Roedd staff ysgolion yn sôn hefyd am rai pryderon fod dysgwyr sydd heb strwythur a goruchwyliaeth addas am gyfnodau estynedig o amser yn fwy agored i niwed.

3.74 Mae pryderon ymddygiad sy'n ymwneud â gweithwyr ieuenctid yn codi ym mis Hydref ac yn mis Mawrth, ac roeddent yn gweld hyn fel ffenomenon dymhorol sy'n gysylltiedig â dechrau a diwedd y gaeaf. Cafodd cyfnod y Nadolig ei grybwyll fel adeg sy'n peri problemau neilltuol, gan fod hyn yn amlygu'r anghydraddoldeb i ddysgwyr mewn cartrefi incwm isel, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw. Yn yr achosion hyn mae gweithwyr ieuenctid yn sylwi bod

[20] Sef, ysgolion cynradd, uwchradd ac Arbennig.

dysgwyr yn dangos mwy o orbryder a'u bod yn gwneud mwy o gymariaethau rhyngddynt eu hunain a'u cymheiriaid.

3.75 Cydnabyddir hyn helaeth hefyd gan weithwyr ieuenctid a gymerodd ran yn yr ymchwil fod digwyddiadau o gamdrin domestig yn codi yn union ar ôl cyfnod y Nadolig, gan gynyddu profiadau dysgwyr o drawma a tharfu – a all arwain at newidiadau cymhleth mewn ymddygiad.

<u>Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad drwy gydol y flwyddyn</u>

3.76 Mae ffactorau sy'n cyfrannu at broblemau ymddygiad yn cynnwys tarfu ar drefniadau arferol yn ôl staff a rhieni, blinder yn ôl rhieni a dysgwyr, diflastod yn ôl rhieni – sy'n gysylltiedig â safbwyntiau am 'golli' amser addysgu a dysgu uchod – ansawdd bywyd cartref yn ôl staff a thywydd a thymhorau yn ôl staff a dysgwyr.

3.77 Mae ffactorau eraill sy'n cyfrannu at ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn cynnwys digwyddiadau pwysig sy'n achosi mwy straen i staff a dysgwyr, megis arholiadau, a digwyddiadau mae staff a dysgwyr yn cyffroi yn eu cylch, gan gynnwys y Nadolig. Roedd staff ysgolion cynradd crefyddol yn tynnu sylw at hyn fel problem benodol gan eu bod yn credu na ddylai pobl fod yn dathlu'r Nadolig cyn yr ŵyl grefyddol ei hun.

3.78 Roedd y farn ar hyd tymhorau yn fwy cymysg. Roedd staff unedau cyfeirio disgyblion a rhai athrawon ysgolion uwchradd yn adrodd am broblemau ymddygiad yn codi yn ystod tymhorau hirach. Roedd staff mewn ysgolion eraill yn adrodd yr un cynnydd ym mhob tymor mewn ymddygiad sy'n tarfu ar eraill.

3.79 Cafodd ffactorau pwysig eraill sy'n cyfrannu at ymddygiad dysgwyr ac nad ydynt yn gysylltiedig â'r calendr ysgol eu crybwyll hefyd, yn enwedig deinameg economaidd-gymdeithasol ac ansawdd bywyd cartref gan arweinwyr ysgolion uwchradd. Roedd y rhain yn cael eu gweld yn gyson gan bawb o'r staff fel y ffactorau pwysicaf. Roedd staff o bob math o leoliad yn disgrifio gweld dysgwyr yn dangos gofid wrth i bob gwyliau ddynesu, ac yn yr achosion mwyaf eithafol ar

benwythnosau hyd yn oed, oherwydd pryderon diogelu, diffyg cefnogaeth rhieni, neu broblemau emosiynol eraill y tu allan i'r ysgol, ac absenoldeb hanfodion llesiant (yn arbennig bwyd). Roedd prydau am ddim yn yr ysgol yn cael eu crybwyll yn barhaus fel yr unig amserau prydau bwyd cyson i rai dysgwyr.

**Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

Canfyddiad o'r gwyliau haf wrth bontio

3.80 Roedd staff uwch dimau arwain mewn ysgolion uwchradd a chynradd yn gweld gwyliau'r haf fel cyfle i ddysgwyr ennill aeddfedrwydd a phrofi gwyliau wedi ei ddiffinio'n glir rhwng prif gyfnodau addysg. Roedd y farn hon yn cael ei hadleisio gan athrawon ysgolion cynradd a rhai rhieni.

3.81 Roedd arweinwyr ysgolion uwchradd yn nodi risgiau i ddysgwyr sy'n pontio (dysgwyr sy'n symud rhwng cyfnodau addysg, yn benodol o ysgol gynradd i ysgol uwchradd) fynd yn anghyfarwydd drachefn â'u hysgolion uwchradd newydd rhwng gweithgareddau pontio a gynhaliwyd ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, er enghraifft ymweliadau blasu – a dechrau mis Medi. Teimlai rhai athrawon ysgol gynradd fod gwyliau o chwe wythnos yn amser hir i'r rheini sy'n teimlo gorbryder ynghylch y pontio, gan ddweud y gallai'r cyfnod gwyliau waethygu'r profiad i rai dysgwyr. Dywedodd rhieni mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is fod eu plant yn ymddangos yn barod i bontio ar ddiwedd tymor yr haf, ond eu bod yn dod yn fwy pryderus dros gyfnod gwyliau'r haf ynghylch y syniad o gychwyn mewn ysgol newydd.

3.82 Roedd rhieni'n pwysleisio y gall y pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd fod yn neilltuol i anodd i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn oherwydd y cyfuniad o orbryder a heriau ynghylch pontio, yn ogystal â'r heriau eraill mae gwyliau'r haf yn eu hachosi i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys yr amser a'r ymdrech mae'n ei gymryd i bontio i mewn ac allan o drefn reolaidd a hyd gwyliau'r haf yn gyffredinol. Mae

problemau ynghylch pontio a heriau eraill sy'n gysylltiedig â gwyliau'r haf i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cymhlethu ei gilydd. Fodd bynnag, teimlai staff ysgolion arbennig fod ganddynt fwy o hyblygrwydd i addasu pontio ar sail anghenion unigol disgyblion trwy ddarparu cymorth ychwanegol neu hyd yn oed ohirio pontio disgyblion pan fo angen er mwyn sicrhau eu llesiant.

3.83 Roedd y cymorth pontio a ddarparwyd i ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 a 7 yn cael ei weld fel rhywbeth pwysicach na strwythur y flwyddyn ysgol gan bawb o'r staff a'r rhieni. Roedd rhieni'n pwysleisio bod y ffordd mae clystyrau ysgolion unigol yn rheoli'r pontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 yn hanfodol ond yn anghyson. Roedd rhai staff ar draws pob mathau o leoliadau yn teimlo'n gryf nad yw'r calendr yn cael unrhyw effaith ar bontio.

3.84 Roedd rhieni dysgwyr ar draws pob mathau o ysgolion yn ferniadol o'r cymorth pontio a'r amrywiad mewn arferion rhwng ysgolion. Roeddent yn pwysleisio nad yw gwyliau'r haf yn lleddfu'r pryderon sydd ganddynt, yn aml ynghylch gorbryder dysgwyr, a'r diffyg gwybodaeth sylfaen tan yn hwyr iawn, yn union cyn cychwyn y tymor.

<u>Canfyddiadau dysgwyr o wyliau'r haf cyn pontio</u>

3.85 Ni wnaeth dysgwyr fynegi unrhyw farn o wyliau'r haf mewn perthynas â phontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Effeithiwyd ar brofiadau pontio llawer ohonynt gan Covid-19 ac nid oeddent yn sylweddoli eu bod yn cael profiad anarferol gyda gweithgareddau ar-lein.

## 4. Casgliadau

4.1 Mae'r ymchwil hwn wedi ceisio cael tystiolaeth o effeithiau canfyddedig o strwythur presennol y flwyddyn ysgol o safbwynt amrywiaeth o ystyriaethau, gan gynnwys amddifadedd, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr, ymddygiad dysgwyr, pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, a llesiant a blinder.

4.2 Cafodd pryderon ynghylch llesiant a blinder eu codi gan bron bawb o'r rhanddeiliaid (dysgwyr, rhieni ac ymarferwyr ysgol) pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol am y calendr ysgol presennol. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n canolbwyntio ar y mater hwn, gyda chymysgedd o safbwyntiau'n cael eu mynegi. Er bod rhai pobl yn teimlo bod y gwyliau haf chwe wythnos yn cael effaith gadarnhaol, roedd y mwyafrif o sylwadau yn codi pryderon ynghylch effeithiau negyddol y calendr blwyddyn ysgol presennol ar lesiant a blinder. Roedd llesiant a blinder dysgwyr ac ymarferwyr ysgol yn cael eu nodi'n rhagweithiol gan bawb o'r rhanddeiliaid (dysgwyr, rhieni ac ymarferwyr ysgol) fel yr elfen roedd y calendr blwyddyn ysgol presennol yn effeithio'n fwyaf negyddol arni.

4.3 Mae tymhorau anghyson o ran hyd – yn enwedig tymor hydref cymharol hir – yn golygu bod dysgwyr a staff yn dod yn fwy blinedig ac yn llai cydnerth (yn gorfforol a meddyliol) gan arwain at lefelau uwch o absenoldeb salwch a dirywiad mewn ymddygiad dysgwyr. Er mai tymor yr hydref yw pryd yr ymdrinir â mwyaf o gynnwys gan athrawon, teimla dysgwyr fod hyn yn cynyddu lefelau blinder. Adroddodd athrawon fod hyn yn ei dro yn cael effaith ar gynnydd a chyrhaeddiad; roedd dysgwyr yn adrodd hefyd eu bod yn cael anhawster wrth ganolbwyntio a phethau eraill yn tynnu eu sylw yn haws pan maent wedi blino, ac yn dweud bod y broblem hon yn fwy amlwg yn nhymor yr hydref.

4.4 Mae Pasg hwyr yn golygu bod tymor y gwanwyn yn niweidiol o hir, gan arwain at fwy o flinder i ddysgwyr a staff addysgu. Yn ogystal, roedd rhai athrawon yn awgrymu bod cael amser hirach yn yr ysgol

rhwng diwedd gwyliau'r Pasg a chychwyn y cyfnod arholiadau allanol yn llesol i bob dysgwyr, ond yn enwedig i'r rheini sy'n dod o gartrefi lle mae llai o gefnogaeth i adolygu gartref.

4.5 Mae gan y gwyliau haf gryfderau a gwendidau. Er mai'r farn yw mai ychydig iawn o effaith, os o gwbl, a gaiff yr hyd presennol o chwe wythnos ar y pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, mae'n cael effaith niweidiol ar gynnydd dysgwyr o bob oedran – yn enwedig plant iau – gan fod gwybodaeth a sgiliau'n cael eu colli dros y gwyliau haf chwe wythnos a bod yn rhaid eu 'hailddysgu' ym mis Medi. Ymddengys fod yr effaith niweidiol hon yn fwy ar ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dywedodd athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg eu bod yn gweld sgiliau iaith yn cymryd cam yn ôl dros wyliau'r haf mewn dysgwyr sy'n siarad iaith neu ieithoedd gwahanol gartref – boed yn Gymraeg, Saesneg neu iaith arall, ond nad hyn yn cael ei ystyried yn ddim gwahanol i'r hyn sy'n digwydd i sgiliau eraill.

4.6 Er hynny, i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiadau (sef Blwyddyn 10 a hŷn) roedd y gwyliau haf chwe wythnos yn cael ei ystyried yn hanfodol iddynt er mwyn rhoi cyfle iddynt atgyfnerthu o'r cyfnod dwys o waith sy'n arwain at yr arholiadau ac yn ystod yr arholiadau.[21] Yn ogystal, mae'r gwyliau haf chwe wythnos yn dal i fod yn atyniad allweddol i'r proffesiwn addysgu.

4.7 I athrawon mae manteision pwysig i wyliau'r haf. Mae'n cael ei weld fel cyfnod hanfodol o orffwys ac adferiad o bwysau addysgu. Mae hefyd yn amser pan fo llawer, yn enwedig staff uwch dimau arwain, yn dal i fyny â thasgau gweinyddol.

4.8 Dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yw'r rhai mae strwythur y flwyddyn ysgol yn effeithio fwyaf arnynt. Yn ogystal â bod y golled dysgu yn effeithio'n fwy arnynt, maent yn profi mwy o effeithiau niweidiol i'w llesiant oherwydd nad ydynt gystal am

[21] Gan nodi y gall y gwyliau fod yn hirach na 6 wythnos yn ymarferol i ddysgwyr gan fod arholiadau'n tueddu i orffen cyn diwedd y tymor.

wrthsefyll newidiadau i drefniadau rheolaidd a’u bod yn cael y newid o amser tymor i amser gwyliau (ac yn ôl) yn arbennig o anodd.

4.9 Mae dysgwyr o grwpiau economaidd-gymdeithasol is a’r rheini lle mae pryderon am amddiffyn hefyd yn cael eu taro’n fwy negyddol gan wyliau’r haf yn enwedig – ond gwyliau a hyd yn oed penwythnosau yn gyffredinol hefyd – oherwydd diffyg symbyliad, sylw a hyd yn oed bwyd, mewn rhai achosion.

4.10 Mae’r ymchwil wedi amlygu bod gan strwythur y calendr ysgol, ym mhrofiadau a chanfyddiadau dysgwyr, rheini ac ymarferwyr ysgol, rôl bwysig yn llesiant dysgwyr a staff. Yn ei dro, effeithir yn negyddol ar ymddygiad, a chyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr. Mae anghysondeb mewn hyd tymhorau yn cynyddu lefelau blinder ar bwyntiau penodol o’r flwyddyn ac yn effeithio ar agwedd at ddysgu ar bwyntiau allweddol megis diwedd tymhorau’r hydref a’r haf. Mae pob dysgwr yn elwa, o safbwynt llesiant, cyrhaeddiad a chynnydd, o’r cymorth a gynigir gan yr ysgol drwy gydol y flwyddyn, gyda’r budd mwyaf yn cael ei weld mewn dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, a dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r gwyliau haf yn amlygu’r mynediad annheg at weithgareddau a chefnogaeth yn ystod adegau gwyliau, gyda’r rheini mewn teuluoedd ag incwm is neu ag anghenion dysgu ychwanegol o dan anfantais yn aml. Mae’r golled dymor byr mewn dysgu yn gysylltiedig â gwyliau’r haf i raddau mwy nag unrhyw wyliau eraill. Y farn yw nad yw’r gwyliau byrraf yn cael fawr o effaith o ran mynd i’r afael â lefelau o flinder a llesiant, gyda dwy wythnos yn cael eu hystyried yn fwy buddiol gan un. Mae’r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gallai newidiadau i’r calendr ysgol wella lefelau llesiant a blinder mewn dysgwyr a staff, helpu mynd i’r afael ag anfantais, a chefnogi cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr.

## Atodiad A Cwestiynau'r ymchwil

### Cynnydd a chyrhaeddiad

- A yw'r calendr ysgol yn effeithio ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr, ac ar gyfradd cynnydd dysgwyr?
- Sut mae'r calendr ysgol yn effeithio ar gynnydd a chyrhaeddiad grwpiau penodol o ddysgwyr? Yn enwedig, dysgwyr sydd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd, y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rheini â nodweddion neu mewn grwpiau gwarchodedig?
- A yw'r calendr ysgol yn effeithio ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr cyfrwng Cymraeg? Yn enwedig dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg.
- A oes unrhyw berthynas rhwng canlyniadau arholiadau a hyd yr amser addysgu yn nhymor yr haf sy'n arwain at y cyfnod arholiadau?
- A yw llai o amser addysgu yn nhymor yr haf yn cael mwy o effaith ar grwpiau penodol o ddysgwyr o gymharu â'u cymheiriaid?

### Blinder a llesiant

- A oes perthynas rhwng y calendr ysgol a theimladau o flinder dysgwyr ac athrawon?
- A oes perthynas rhwng y calendr ysgol a phryderon llesiant dysgwyr ac athrawon?
- Pa effeithiau mae unrhyw flinder ymysg ymarferwyr, sy'n ymwneud â'r calendr ysgol, yn eu cael ar eu gwaith a'u llesiant?
- Sut mae unrhyw flinder (sy'n ymwneud â'r calendr ysgol) yn effeithio ar allu dysgwyr a'u hagwedd at ddysgu a'u llesiant? Ac a yw hyn yn gysylltiedig â'u presenoldeb?

- A oes perthynas rhwng y calendr ysgol a phryderon blinder a llesiant athrawon newydd gymhwyso? Ac a yw hyn yn effeithio ar benderfyniadau i adael y proffesiwn?
- Sut mae athrawon (gan gynnwys athrawon newydd gymhwyso) yn meddwl bod blinder yn effeithio ar eu haddysgu?

**Ymddygiad dysgwyr**

- Beth yw canfyddiadau athrawon ynghylch a yw'r calendr ysgol yn effeithio ar ymddygiad dysgwyr (ee tarfu) yn yr ystafell ddosbarth?
- A oes unrhyw ffactorau sy'n cyfrannu at ymddygiad dysgwyr (ee tarfu) drwy gydol y flwyddyn ysgol?

**Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

- Beth yw canfyddiadau athrawon o effaith gwyliau'r haf ar y pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd?
- Beth yw canfyddiadau dysgwyr o effaith gwyliau'r haf ar y pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd?

**Atodiad B Canllawiau Pwnc**

**Ymchwil i Strwythur y Flwyddyn Ysgol**

**Prif Waith Maes – Canllawiau Pwnc (Staff Ysgolion)**

| | |
|---|---|
| **Cyfwelydd:** | |
| **Cyfwelai:** | |
| **Rôl a Lleoliad y Cyfwelai:** | |
| **Cyfeiriad e-bost y Cyfwelai:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Cefndir i'r ymchwil**

Fel y gwyddoch efallai, mae Llywodraeth Cymru, drwy ei **Rhaglen Lywodraethu**, wedi ymrwymo i archwilio diwygio'r flwyddyn ysgol. Y prif yrrwr ar gyfer yr ymrwymiad hwn yw ystyried **strwythur y flwyddyn ysgol gyfredol, yn ogystal â threfniadau amgen ar gyfer y calendr ysgol**, er mwyn cael calendr ysgol a all helpu orau i liniaru unrhyw effeithiau anfantais, lleihau anghydraddoldebau addysgol a helpu gwella llesiant dysgwyr a staff.

Mae Miller Research wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i archwilio profiadau a chanfyddiadau dysgwyr ac ymarferwyr ysgol o'r calendr ysgol **presennol** a'r effaith y mae'n ei chael ar ddilyniant, cyrhaeddiad, ymddygiad dysgwyr, blinder, lles a phontio ysgol uwchradd. Mae'r term 'calendr ysgol' yn cyfeirio at strwythur presennol y flwyddyn ysgol (neu academaidd), gan gynnwys **hyd tymhorau** a **dosbarthiad** cyfnodau gwyliau ar draws y flwyddyn.

Wrth ystyried y calendr ysgol, mae gennym ddiddordeb hefyd yn y gwyliau ysgol a'r effaith y gall cyfnodau estynedig o amser allan o'r ysgol ei chael ar ddysgwyr a/neu ymarferwyr ysgol.

Bydd yr ymchwil yn ystyried y manteision a'r anfanteision cymharol sy'n gysylltiedig ag anghysondeb hyd tymhorau ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r sefyllfa **na fydd** diwrnodau yn yr ysgol, nifer y diwrnodau hyfforddi staff, na nifer cyffredinol yr wythnosau gwyliau **yn newid** pe bai unrhyw argymhellion i newid y calendr ysgol yn cael eu gweithredu. Bydd yr holl wyliau banc hefyd yn dal yn berthnasol ac **ni fydd** cyfnod gwyliau'r Haf yn llai na phedair wythnos.

O'r herwydd, pwrpas yr ymchwil hwn yw cael dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol ac nid archwilio agweddau tuag at unrhyw fodelau penodol, amgen

ar gyfer y flwyddyn ysgol. Bydd yr ymchwil yn llywio ymgynghoriad ffurfiol ar strwythur y flwyddyn ysgol yn ddiweddarach yn 2023.

Fel rhan o’r ymchwil hwn, rydym yn casglu barn rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys rhieni, staff ysgol, a phlant a phobl ifanc – mewn gweithdai fel hwn.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Bydd eich cyfraniad yn ddienw drwy'r broses ddadansoddi a dim ond ar gyfer cadw cofnodion mewnol y defnyddir eich manylion cyswllt.

| 1 | **Cyflwyniad** | **Notes** |
|---|---|---|
| 1a | Allwch chi cyflwyno'ch hun a'ch rôl, gan gynnwys pa flwyddyn(blynyddoedd) rydych chi'n eu haddysgu ac ers pa mor hir rydych chi wedi bod yn gweithio ym myd addysg? | |
| **2** | **Agweddau cyffredinol tuag at y calendr ysgol cyfredol** | |
| 2a | Beth yn eich barn chi yw prif gryfderau’r ffordd y mae’r flwyddyn ysgol wedi’i strwythuro yng Nghymru ar hyn o bryd?<br>• E.e., gellid sôn am ddosbarthiad gwyliau trwy gydol y flwyddyn, hyd tymhorau a chyfnodau gwyliau | |
| 2b | **Pam** ydych chi’n ystyried yr elfennau hyn o’r flwyddyn ysgol yn gryfderau – pwy **sy’n cael budd** ohonynt?<br>• H.y., grwpiau penodol o ddysgwyr, eu teuluoedd, athrawon, staff eraill a rhanddeiliaid<br>• A yw rhai grwpiau o ddysgwyr / ymarferwyr / aelodau o gymuned yr ysgol yn elwa mwy nag eraill? | |
| 2c | Beth yn eich barn chi yw prif **ddiffygion** y ffordd y mae’r flwyddyn ysgol wedi’i strwythuro yng Nghymru ar hyn o bryd?<br>• A yw rhai grwpiau o ddysgwyr / ymarferwyr / aelodau o gymuned yr ysgol yn cael mwy o effaith negyddol nag eraill? | |

| 3 | **Effeithiau ar Staff Ysgol (Blinder a Llesiant)** | |
|---|---|---|
| 3a | I ba raddau, os o gwbl, y mae calendr yr ysgol yn effeithio ar lefelau **blinder ymhlith ymarferwyr ysgol**? (Os yn berthnasol)<br>• Ydy lefel eich blinder yn newid dros gyfnod o dymor? Os felly, sut?<br>• Ydych chi wedi blino mwy yn ystod un tymor nag un arall? Os felly, pa un?<br>• Ydych chi'n dychwelyd ar ôl cyfnodau gwyliau yn teimlo'n adfywiol?<br>    ○ A yw hyn yn dibynnu ar hyd y gwyliau / hyd y tymor blaenorol, neu a yw'r calendr yn amherthnasol i'ch lefelau blinder a chymhelliant? | |
| 3b | Pa effaith mae calendr yr ysgol yn ei chael ar **wahanol grwpiau** o ymarferwyr ysgol o ran blinder a lles?<br>• A yw'r calendr ysgol yn effeithio'n wahanol ar **Athrawon Newydd Gymhwyso** nag y mae'n effeithio ar athrawon uwch?<br>• A yw'r calendr yn effeithio ar gynorthwywyr addysgu a staff cymorth yn wahanol i athrawon?<br>• I ba raddau y mae hyn oherwydd gwahaniaethau mewn contractau (e.e. y rhai a delir fesul awr yn erbyn gweithwyr cyflogedig)?<br>• Beth am arweinyddiaeth ysgol? | |
| 3c | Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw gydberthynas negyddol rhwng calendr yr ysgol a blinder a lles ymhlith ymarferwyr ysgol?<br>• A fyddai hyd tymor mwy cyfartal yn helpu i leihau blinder a gwella lles? | |
| **4** | **Effeithiau ar ddysgwyr – Blinder, llesiant a phresenoldeb** | |
| 4a | I ba raddau, os o gwbl, y mae perthynas rhwng calendr yr ysgol a **blinder dysgwyr**? | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Sut allwch chi ddweud? A yw blinder dysgwyr yn effeithio ar gymhelliant, ymddygiad, presenoldeb, ac ati?<br>• (Os yw'n berthnasol) Pa **effaith y mae hyn yn ei chael ar ddysgwyr / cymuned ehangach yr ysgol**? Holwch am unrhyw effeithiau ar grwpiau penodol o ddysgwyr. | |
| 4b | Sut (os o gwbl) y mae amserau cyfnodau gwyliau trwy gydol y flwyddyn a hyd y tymor a chyfnodau gwyliau yn effeithio **ar lesiant dysgwyr**?<br><br>• Beth am agweddau dysgwyr at ddysgu a'u cymhelliant i ddysgu – a yw hyn yn newid gyda'r calendr ysgol?<br>• Holwch am unrhyw effeithiau ar grwpiau penodol o ddysgwyr. | |
| 4c | Yn eich profiad chi, a yw **presenoldeb** dysgwyr yn newid mewn perthynas â chalendr yr ysgol?<br><br>• A yw myfyrwyr yn absennol yn amlach ychydig cyn / ychydig ar ôl cyfnodau gwyliau?<br>• A yw hyn yn dibynnu ar hyd y cyfnod gwyliau / tymor?<br>• I ba raddau y mae absenoldebau myfyrwyr yn gysylltiedig â'r materion yr ydym wedi'u trafod hyd yn hyn (blinder, llesiant, ac ati) | |
| 4d | Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw gydberthynas negyddol rhwng calendr yr ysgol a blinder a llesiant ymhlith dysgwyr?<br>• A fyddai hyd tymor mwy cyfartal yn helpu i leihau blinder a gwella lles? | |
| **5** | **Ymddygiad dysgwyr** | |
| 5a | I ba raddau, os o gwbl, y mae calendr yr ysgol yn effeithio ar **ymddygiad aflonyddgar gan ddysgwyr**? A yw ymddygiad aflonyddgar yn broblem ar adeg benodol yn y flwyddyn? Pam ydych chi'n meddwl yw hyn? | |

| | | |
|---|---|---|
| | • (Os yw'n berthnasol) A oes grwpiau penodol o ddysgwyr y mae strwythur y flwyddyn ysgol yn effeithio'n fwy ar eu hymddygiad? | |
| 5b | Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw gydberthynas negyddol rhwng y calendr ysgol ac ymddygiad dysgwyr?<br>• A fyddai addasu strwythur y flwyddyn ysgol yn helpu i leihau ymddygiad aflonyddgar? | |
| **6** | **Cynnydd a chyrhaeddiad** | |
| 6a | Sut, os o gwbl, y mae calendr yr ysgol yn effeithio ar **gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr?**<br>• Ydych chi'n sylwi ar wahaniaeth mewn dilyniant a chyrhaeddiad ychydig cyn cyfnodau gwyliau? Ychydig ar ôl cyfnodau gwyliau?<br>• Os byddwch yn sylwi bod dilyniant dysgwyr yn newid ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn, pam ydych chi'n meddwl bod hyn? | - |
| 6b | Sut mae'r calendr presennol yn effeithio ar **wahanol grwpiau** o ddysgwyr?<br>• Er enghraifft, statws economaidd-gymdeithasol, MAT, iaith, ADY, ac ati?<br>• Pam ydych chi'n meddwl fod hyn? | |
| 6c | [Ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg]: Sut, os o gwbl, y mae'r calendr ysgol yn effeithio ar ddilyniant a chyrhaeddiad dysgwyr cyfrwng Cymraeg, yn enwedig dysgwyr sydd â lefelau gwahanol o gysylltiad â'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol? | |
| 6d | [Ar gyfer ysgolion uwchradd]: A ydych yn sylwi ar unrhyw gydberthynas **rhwng canlyniadau arholiadau a faint o amser addysgu yn nhymor yr haf** cyn cyfnod yr arholiadau? Holwch am unrhyw fanylion penodol.<br>• A yw myfyrwyr yn perfformio'n well mewn arholiadau pan fydd ganddynt dymor haf hirach? A yw hyn yr un mor wir am bob grŵp o fyfyrwyr? | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ydych chi'n sylwi ar wahaniaeth yn agweddau/lefelau pryder myfyrwyr pan fydd ganddyn nhw dymor haf byrrach cyn arholiadau?<br>• A oes unrhyw ddarpariaeth ddysgu yn yr ysgol ar gyfer adolygu yn ystod gwyliau'r Pasg/astudio? | |
| 6e | [Ar gyfer ysgolion uwchradd]: A ydych yn ymwybodol o unrhyw **grwpiau penodol o ddysgwyr** sy'n cael eu heffeithio'n fwy gan gyfnod byrrach o amser addysgu yn nhymor yr haf cyn cyfnod yr arholiadau? *Holwch am unrhyw fanylion penodol.* | |
| 6f | Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol y calendr ysgol ar ddilyniant a chyrhaeddiad dysgwyr? | |
| **7** | **Pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd** | |
| 7a | [Ar gyfer arweinwyr ysgol a staff ym mlwyddyn olaf y cynradd, blwyddyn gyntaf yr uwchradd]<br>I ba raddau, os o gwbl, y mae calendr yr ysgol yn **effeithio ar bontio dysgwyr** o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd?<br>• Yn eich profiad chi, sut mae gwyliau hir yr haf yn effeithio ar les ac agwedd dysgwyr tuag at drosglwyddo i'r ysgol uwchradd? Beth am eu parodrwydd i ddysgu a dilyniant ar ôl dechrau yn yr ysgol uwchradd?<br>• (Os yw'n berthnasol) A oes unrhyw grwpiau penodol o ddysgwyr y mae hyn yn fwy o broblem iddynt? | |
| 7b * | O ystyried y calendr ysgol presennol, beth ydych chi'n meddwl (os o gwbl) sy'n cael yr effaith negyddol fwyaf a pham? | |
| 8 | **Ar gyfer Ysgolion Uwchradd** | |
| | Ar sail y flwyddyn hon/blynyddoedd diwethaf, a fyddai eich ysgol yn gallu rhedeg diwrnodau canlyniadau arholiadau ar y safle yn nhrydedd wythnos Awst ar gyfer TAG (Safon Uwch) a TGAU (os yn berthnasol)? | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | A fyddai unrhyw fanteision neu anfanteision i staff o gael canlyniadau TAG a TGAU yn yr un wythnos yn hytrach nag wythnosau dilynol? | |
| | Pa faterion (os o gwbl) a all godi o gael diwrnodau canlyniadau TAG a TGAU yn yr un wythnos? | |
| | Os yw'n berthnasol, tua faint o'ch dysgwyr sy'n cwblhau cymwysterau heblaw CBAC ar y safle ar gyfer TGAU a TAG? | |
| **9** | **Cau** | |
| 9a | O ystyried popeth yr ydym wedi'i drafod heddiw, faint o effaith y credwch y mae strwythur y calendr ysgol yn ei chael ar ddysgwyr yn gyffredinol?<br>• Os yw 0 yn golygu nad yw'r calendr yn cael unrhyw effaith o gwbl ar ddysgwyr a bod 10 yn golygu bod y calendr yn hynod ddylanwadol, beth yw eich barn chi am effaith strwythur y flwyddyn ysgol ar ddysgwyr?<br>• Faint o effaith y mae'n ei chael ar ymarferwyr yn gyffredinol? | |
| 9b | Os gallech chi newid un peth am galendr yr ysgol er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y mae'n ei gael ar ddysgwyr, beth fyddech chi'n ei newid? | |
| 9c | A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei grybwyll ynglŷn â'r calendr ysgol yng Nghymru? | |

**Ymchwil i Strwythur y Flwyddyn Ysgol**

**Prif Waith Maes – Canllawiau Pwnc  Cyfweliadau (Gweithwyr Ieuenctid)**

| | |
|---|---|
| **Cyfwelydd:** | |
| **Cyfwelai:** | |
| **Rôl a Lleoliad y Cyfwelai:** | |
| **Cyfeiriad e-bost y Cyfwelai:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Cefndir i'r ymchwil**

Fel y gwyddoch efallai, mae Llywodraeth Cymru, drwy ei **Rhaglen Lywodraethu**, wedi ymrwymo i archwilio diwygio'r flwyddyn ysgol. Y prif yrrwr ar gyfer yr ymrwymiad hwn yw **ystyried strwythur presnnol y flwyddyn ysgol, yn ogystal â threfniadau amgen ar gyfer y calendr ysgol**, er mwyn cael calendr ysgol a all helpu orau i liniaru unrhyw effeithiau anfantais, lleihau anghydraddoldebau addysgol a helpu gwella llesisant dysgwyr a staff.

Mae Miller Research wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i archwilio profiadau a chanfyddiadau dysgwyr ac ymarferwyr ysgol o'r calendr ysgol **presennol** a'r effaith y mae'n ei chael ar ddilyniant, cyrhaeddiad, ymddygiad dysgwyr, blinder, lles a phontio ysgol uwchradd. Mae'r term 'calendr ysgol' yn cyfeirio at strwythur presennol y flwyddyn ysgol (neu academaidd), gan gynnwys **hyd tymhorau** a **dosbarthiad** cyfnodau gwyliau ar draws y flwyddyn.

Wrth ystyried y calendr ysgol, mae gennym ddiddordeb hefyd yn y gwyliau ysgol a'r effaith y gall cyfnodau estynedig o amser allan o'r ysgol ei chael ar ddysgwyr a/neu ymarferwyr ysgol.

Bydd yr ymchwil yn ystyried y manteision a'r anfanteision cymharol sy'n gysylltiedig ag anghysondeb hyd tymhorau ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r sefyllfa **na fydd** diwrnodau yn yr ysgol, nifer y diwrnodau hyfforddi staff, na nifer cyffredinol yr wythnosau gwyliau **yn newid** pe bai unrhyw argymhellion i newid y calendr ysgol yn cael eu gweithredu. Bydd yr holl wyliau banc hefyd yn dal yn berthnasol ac **ni fydd** cyfnod gwyliau'r Haf yn llai na phedair wythnos.

O'r herwydd, pwrpas yr ymchwil hwn yw cael dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol ac nid archwilio agweddau tuag at unrhyw fodelau penodol, amgen ar gyfer y flwyddyn ysgol. Bydd yr ymchwil yn llywio ymgynghoriad ffurfiol ar strwythur y flwyddyn ysgol yn ddiweddarach yn 2023.

Fel rhan o'r ymchwil hwn, rydym yn casglu barn rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys rhieni, staff ysgol, a phlant a phobl ifanc – mewn gweithdai fel hwn.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Bydd eich cyfraniad yn ddienw drwy'r broses ddadansoddi a dim ond ar gyfer cadw cofnodion mewnol y defnyddir eich manylion cyswllt.

| 1 | **Cyflwyniad** | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| 1a | Allwch chi cyflwyno'ch hun a'ch rôl, (pa leoliadau yng Nghymru'r ydych chi'n gweithio'n bennaf ynddynt, a gyda pha ystod oedrannau?) | |
| **2** | **Agweddau cyffredinol tuag at y calendr ysgol cyfredol** | |
| 2a | Beth yn eich barn chi yw prif **gryfderau'r** ffordd y mae'r flwyddyn ysgol wedi'i strwythuro yng Nghymru ar hyn o bryd?<br>• Sut mae pobl ifanc yn teimlo am y cyfnodau gwyliau?<br>• E.e., gellid sôn am ddosbarthiad gwyliau trwy gydol y flwyddyn, hyd tymhorau a chyfnodau gwyliau | |
| 2b | **Pam** ydych chi'n ystyried yr elfennau hyn o'r flwyddyn ysgol yn gryfderau – pwy **sy'n cael budd** ohonynt?<br>• H.y., grwpiau penodol o ddysgwyr, eu teuluoedd, athrawon, staff eraill a rhanddeiliaid<br>• A yw rhai grwpiau o ddysgwyr / ymarferwyr / aelodau o gymuned yr ysgol yn elwa mwy nag eraill? | |
| 2c | Beth yn eich barn chi yw prif **ddiffygion** y ffordd y mae'r flwyddyn ysgol wedi'i strwythuro yng Nghymru ar hyn o bryd? | |

| | | |
|---|---|---|
| | • A yw rhai grwpiau o ddysgwyr / ymarferwyr / aelodau o gymuned yr ysgol yn cael mwy o effaith negyddol nag eraill? | |
| **3** | **Effeithiau ar Waith Ieuenctid** | |
| 3a | I ba raddau, os o gwbl, y mae calendr yr ysgol yn effeithio ar y gwaith rydych chi'n ei wneud?<br>• Ym mha ffordd? Pa gyfnodau sydd drymaf i chi? Sut mae natur eich gwaith wedi newid ac addasu dros y blynyddoedd diwethaf? | |
| 3b | Pa effaith mae calendr yr ysgol yn ei chael ar y gwahanol fathau o wasanaethau sy'n cefnogi pobl ifanc **<u>y tu allan i amgylchedd yr ysgol</u>**? | |
| **4** | **Effeithiau ar Bobl Ifanc – Blinder, llesiant a phresenoldeb** | |
| 4a | Pa gysylltiad (os oes o gwbl) sydd rhwng effeithiau ar iechyd meddwl a llesiant i wahanol grwpiau o ddysgwyr, a strwythur y flwyddyn ysgol? | |
| 4b | Sut (os o gwbl) y mae lleoliad cyfnodau gwyliau trwy gydol y flwyddyn a hyd y tymor a chyfnodau gwyliau yn effeithio **<u>ar lesiant pobl ifanc</u>**?<br>• Beth am agweddau dysgwyr at ddysgu a'u cymhelliant i ddysgu – a yw hyn yn newid gyda'r calendr ysgol?<br>• *Holwch am unrhyw effeithiau ar grwpiau penodol o ddysgwyr.* | |
| 4c | Beth yw rhai o'r problemau (heriau) cymdeithasol y dylid eu hystyried mewn perthynas â phobl ifanc, a chyfnodau gwyliau ysgol?<br>• I ba raddau mae'r rhain yn gysylltiedig â **hyd yr amser a dreulir y tu allan i'r ysgol**?<br>• Yn eich profiad chi, a yw'r problemau hyn yn debygol o gael eu gwaethygu gan ddiffyg trefn strwythuredig (ysgol)? | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Pobl ifanc ac ymddygiad** | |
| 5a | I ba raddau, os o gwbl, y mae calendr yr ysgol yn effeithio ar **<u>ymddygiad aflonyddgar gan ddysgwyr</u>**? A yw ymddygiad aflonyddgar yn broblem ar adeg benodol yn y flwyddyn? Pam ydych chi'n meddwl yw hyn?<br>• (Os yw'n berthnasol) A oes grwpiau penodol o ddysgwyr y mae strwythur y flwyddyn ysgol yn effeithio'n fwy ar eu hymddygiad? | |
| 5b | Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw gydberthynas negyddol rhwng calendr yr ysgol ac ymddygiad dysgwyr?<br>• A fyddai addasu strwythur y flwyddyn ysgol yn helpu i leihau ymddygiad aflonyddgar?<br>• Ydych chi'n sylwi ar unrhyw broblemau penodol mewn ymddygiad pobl ifanc, wrth gymharu cychwyn y gwyliau 6-wythnos a'u diwedd? | |
| **6** | **Profiadau y tu allan i'r ysgol** | |
| 6a | Sut, os o gwbl, mae hyd y cyfnodau gwyliau ysgol yn effeithio ar ddysgwyr y tu allan i'r ysgol?<br>• A ddylanwedir ar rai grwpiau o ddysgwyr yn fwy na'i gilydd?<br>• A oes gennych unrhyw dystiolaeth a all helpu cefnogi ein dealltwriaeth o hyn? (Nifer o ddigwyddiadau a gafodd eu hadrodd, atgyfeiriadau a wnaed?) | - |
| 6b | Yn benodol, beth yw effeithiau cyfnod o wyliau 6-wythnos ar ddysgwyr a all fod â bywyd anodd gartref (am amrywiol resymau) – gan gynnwys y rheini mewn cartrefi ag ansicrwydd bwyd, neu'r rheini sy'n symud o gwmpas yn aml yn y gwyliau?<br>• A yw newid hyd cyfnodau gwyliau yn debygol o gael unrhyw effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â'r problemau hyn? | |

| | | |
|---|---|---|
| 6c | Beth yw effeithiau newid cyfnodau gwyliau ysgol i deuluoedd sydd â threfniadau gwarchodaeth sy'n gwahaniaethu rhwng amser gwyliau ac amser tymor? | |
| **9** | **Cau** | |
| 9a | O ystyried popeth yr ydym wedi'i drafod heddiw, faint o effaith y credwch y mae strwythur y calendr ysgol yn ei chael ar ddysgwyr yn gyffredinol?<br>• Os yw 0 yn golygu nad yw'r calendr yn cael unrhyw effaith o gwbl ar ddysgwyr a bod 10 yn golygu bod y calendr yn hynod ddylanwadol, beth yw eich barn chi am effaith strwythur y flwyddyn ysgol ar ddysgwyr?<br>• Faint o effaith y mae'n ei chael ar ymarferwyr yn gyffredinol? | |
| 9b | Os gallech chi newid un peth am galendr yr ysgol er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y mae'n ei gael ar ddysgwyr, beth fyddech chi'n ei newid? | |
| 9c | A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei grybwyll ynglŷn â'r calendr ysgol yng Nghymru? | |

**Ymchwil i Strwythur y Flwyddyn Ysgol**

**Prif Waith Maes – Canllawiau Pwnc (Rhieni)**

| | |
|---|---|
| **Cyfwelydd:** | |
| **Cyfwelai:** | |
| **Rôl a Lleoliad y Cyfwelai:** | |
| **Cyfeiriad e-bost y Cyfwelai:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Cefndir i'r ymchwil**

Fel y gwyddoch efallai, mae Llywodraeth Cymru, drwy ei **Rhaglen Lywodraethu**, wedi ymrwymo i archwilio diwygio'r flwyddyn ysgol. Y prif yrrwr ar gyfer yr ymrwymiad hwn yw **ystyried strwythur presennol y flwyddyn ysgol, yn ogystal â threfniadau amgen ar gyfer y calendr ysgol**, er mwyn cael calendr ysgol a all helpu orau i liniaru unrhyw effeithiau anfantais, lleihau anghydraddoldebau addysgol a helpu gwella llesiant dysgwyr a staff.

Mae Miller Research wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i archwilio profiadau a chanfyddiadau dysgwyr ac ymarferwyr ysgol o'r calendr ysgol **presennol** a'r effaith y mae'n ei chael ar ddilyniant, cyrhaeddiad, ymddygiad dysgwyr, blinder, lles a phontio ysgol uwchradd. Mae'r term 'calendr ysgol' yn cyfeirio at strwythur presennol y flwyddyn ysgol (neu academaidd), gan gynnwys **hyd tymhorau** a **dosbarthiad** cyfnodau gwyliau ar draws y flwyddyn.

Wrth ystyried y calendr ysgol, mae gennym ddiddordeb hefyd yn y gwyliau ysgol a'r effaith y gall cyfnodau estynedig o amser allan o'r ysgol ei chael ar ddysgwyr a/neu ymarferwyr ysgol.

Bydd yr ymchwil yn ystyried y manteision a'r anfanteision cymharol sy'n gysylltiedig ag anghysondeb hyd tymhorau ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r sefyllfa **na fydd** diwrnodau yn yr ysgol, nifer y diwrnodau hyfforddi staff, na nifer cyffredinol yr wythnosau gwyliau **yn newid** pe bai unrhyw argymhellion i newid y calendr ysgol yn cael eu gweithredu. Bydd yr holl wyliau banc hefyd yn dal yn berthnasol ac **ni fydd** cyfnod gwyliau'r Haf yn llai na phedair wythnos.

O'r herwydd, pwrpas yr ymchwil hwn yw cael dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol ac nid archwilio agweddau tuag at unrhyw fodelau penodol, amgen ar gyfer y flwyddyn ysgol. Bydd yr ymchwil yn llywio ymgynghoriad ffurfiol ar strwythur y flwyddyn ysgol yn ddiweddarach yn 2023.

Fel rhan o'r ymchwil hwn, rydym yn casglu barn rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys rhieni, staff ysgol, a phlant a phobl ifanc – mewn gweithdai fel hwn.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Bydd eich cyfraniad yn ddienw drwy'r broses ddadansoddi a dim ond ar gyfer cadw cofnodion mewnol y defnyddir eich manylion cyswllt.

| **1** | **Cyflwyniad** | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| 1a | Allwch chi gyflwyno'ch hunain a rhannu oedran a blwyddyn eich plant? | |
| 1b | A yw unrhyw rai o'ch plant yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? Os felly, ydych chi'n siarad Cymraeg gartref? | |
| 1c | A oes unrhyw un ohonoch yn gweithio mewn ysgolion neu yn y sector addysg? | |
| **2** | **Agweddau cyffredinol tuag at y calendr ysgol cyfredol** | |
| 2a | Beth yn eich barn chi yw prif **gryfderau'r** ffordd y mae'r flwyddyn ysgol wedi'i strwythuro yng Nghymru ar hyn o bryd?<br>• E.e., gellid sôn am ddosbarthiad gwyliau trwy gydol y flwyddyn, hyd tymhorau a chyfnodau gwyliau | |
| 2b | Pam ydych chi'n ystyried yr elfennau hyn o'r flwyddyn ysgol yn gryfderau – pwy sy'n cael budd ohonynt?<br>• H.y., grwpiau penodol o ddysgwyr, eu teuluoedd, athrawon, staff eraill a rhanddeiliaid<br>• A yw rhai grwpiau o ddysgwyr / ymarferwyr / aelodau o gymuned yr ysgol yn elwa mwy nag eraill? | |
| 2c | Beth yn eich barn chi yw prif **ddiffygion** y ffordd y mae'r flwyddyn ysgol wedi'i strwythuro yng Nghymru ar hyn o bryd? | |

| | | |
|---|---|---|
| 2d | I ba raddau mae'r diffygion hyn yn amrywio o ran o ffordd maent yn **<u>efffeithio ar wahanol grwpiau</u>** o ddysgwyr, ymarferwyr addysgu a rhanddeiliaid eraill? | |
| **3** | **Blinder a llesiant** | |
| 3a | I ba raddau, os o gwbl, yn eich barn chi mae strwythur y flwyddyn ysgol yn effeithio ar lefel ynni neu flinder eich plant?<br>• Sut allwch chi ddweud?<br>• A yw eich plentyn yn cael cyfanswm gwahanol o gwsg dros gwrs y flwyddyn? Ee yn union cyn, neu'n union ar ôl, cyfnodau gwyliau penodol<br>• A yw'r calendr ysgol yn effeithio ar ymddygiad eich plant (ee bwyta, amser sgrin, trefn reolaidd) mewn ffyrdd eraill? | |
| 3b | Sut (os o gwbl) y mae dosbarthiad cyfnodau gwyliau trwy gydol y flwyddyn a hyd y tymor a chyfnodau gwyliau yn effeithio **<u>ar lesiant cyffredinol eich plant</u>**?<br><br>• Ydych chi'n sylwi ar effeithiau penodol ar iechyd meddwl eich plant ar bwyntiau penodol o'r flwyddyn? Sut maen nhw'n ymddangos ar ddiwedd tymor yr hydref o gymharu ag yn union cyn y Pasg?<br>• Beth am eu hagweddau at ddysgu a'u cymhelliant i ddysgu – a yw eich plant â mwy o gymhelliant / yn fwy awyddus i ddysgu ar adegau penodol o'r flwyddyn?<br>• I ba raddau mae graddau eu symbyliad yn newid yn union cyn / yn union ar ôl gwyliau? A yw hyn yn newid gan ddibynnu ar hyd y tymor / cyfnod gwyliau? A yw eu symbyliad yn lleihau yn union cyn / yn union ar ôl cyfnodau gwyliau?<br>• Yn enwedig i'r rheini sydd â phlant yn yr ysgol uwchradd / sydd ag amryw o blant – ydych chi wedi sylwi unrhyw wahaniaethau yn sut mae'r calendr ysgol yn effeithio ar eich plentyn o flwyddyn i flwyddyn? | |

| | | |
|---|---|---|
| 3c | Yn eich profiad chi, a yw eich plentyn yn tueddu i fod yn absennol o'r ysgol yn fwy ar adegau penodol o'r flwyddyn?<br><br>• Pam fod hyn? (ee salwch, wedi ymlâdd, iechyd meddwl, symbyliad, etc)<br>• A yw eich plentyn yn tueddu i golli ysgol yng nghanol tymhorau neu'n nes at gychwyn / diwedd cyfnod gwyliau?<br>• A yw hyn yn dibynnu ar hyd y cyfnod gwyliau / y tymor? | |
| 3d | Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw gydberthynas negyddol rhwng calendr yr ysgol a blinder a llesiant ymhlith dysgwyr a/neu ymarferwyr ysgol?<br><br>• A fyddai hyd tymor mwy cyfartal yn helpu i leihau blinder a gwella llesiant?<br>• A fyddai o help pe bai gwyliau'r hydref yn hirach? | |
| **4** | **Ymddygiad dysgwyr** | |
| 4a | Cyn belled ag y gwyddoch chi, a yw eich plant / neu ffrindiau yn dod yn fwy aflonyddgar eu hymddygiad yn yr ysgol ar wahanol adegau o'r flwyddyn?<br><br>• Ydych chi'n teimlo y byddech chi'n gwybod am ymddygiad aflonyddgar lefel-isel sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth? | |
| 4b | Gartref neu yn yr ysgol, a yw eich plant yn dod yn fwy aflonyddgar ar ddiwedd tymor hir?<br><br>• Beth am yn union ar ôl cyfnod gwyliau?<br>• Yn union ar ôl dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf? | |
| 4c | Beth, os o gwbl, y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw gydberthynas negyddol rhwng calendr yr ysgol ac ymddygiad dysgwyr? | |

| | | |
|---|---|---|
| | • A fyddai addasu strwythur y flwyddyn ysgol yn helpu i leihau ymddygiad aflonyddgar? | |
| **5** | **Pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd (i rieni ysgolion uwchradd / rhieni sydd â phlant ym Mlwyddyn 6)** | |
| 5a | I ba raddau, os o gwbl, y mae calendr yr ysgol yn **effeithio ar bontio dysgwyr** o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd?<br>• A yw / a oedd eich plant yn orbryderus ynghylch y pontio?<br>• I ba raddau mae gorbryder yn ymwneud ag asesu yn yr ysgol uwchradd o gymharu ag agwedd gymdeithasol pontio?<br>• Yn eich profiad chi, sut mae gwyliau hir yr haf yn effeithio ar les ac agwedd dysgwyr tuag at drosglwyddo i'r ysgol uwchradd? Beth am eu parodrwydd i ddysgu a dilyniant ar ôl dechrau yn yr ysgol uwchradd? | |
| 5b | Beth, os o gwbl, y gellir ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw gydberthynas negyddol rhwng y calendr ysgol a phontio dysgwyr o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd? | |
| **6** | **Cynnydd a chyrhaeddiad** | |
| 6a | Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yng nghynnydd / cyrhaeddiad eich plant ar wahanol bwyntiau o'r flwyddyn?<br>• Ydych chi'n sylwi ar wahaniaeth mewn dilyniant a chyrhaeddiad ychydig cyn cyfnodau gwyliau? Ychydig ar ôl cyfnodau gwyliau? | - |
| 6b | I ba raddau mae eich plant yn mynegi pryder ynghylch pethau sydd wedi eu hanghofio dros wyliau'r haf a chyfnodau gwyliau eraill? | |
| 6c | Wrth feddwl am y gwyliau Pasg diweddar a chyfnod gwyliau'r gaeaf, faint o ddysgu / adolygu a wnaeth eich plant pan oeddent i ffwrdd o'r ysgol? | |

| | | |
|---|---|---|
| | • A wnaeth eich ysgol gynnig unrhyw ddarpariaeth ddysgu? (Yn enwedig i flynyddoedd arholiadau)<br>• Sut wnaethant dreulio eu gwyliau? Oedden nhw'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau penodol (ee gwersylloedd, teithiau diwylliannol megis amgueddfeydd, teithio, amser gyda'r teulu, etc.) | |
| **7** | **Cau** | |
| 7a | O ystyried popeth yr ydym wedi'i drafod heddiw, faint o effaith y credwch y mae strwythur y calendr ysgol yn ei chael ar ddysgwyr yn gyffredinol?<br>• Os yw 0 yn golygu nad yw'r calendr yn cael unrhyw effaith o gwbl ar ddysgwyr a bod 10 yn golygu bod y calendr yn hynod ddylanwadol, beth yw eich barn chi am effaith strwythur y flwyddyn ysgol ar ddysgwyr? | |
| 7b | Beth yw'r ystyriaeth bwysicaf ynglyn â'r calendr ysgol i chi / i'ch teulu?<br>• Pa ffactorau ydych chi'n teimlo y dylai gael eu blaenoriaethu fwyaf? Ee llesiant, cyflawniad academaidd, cyfleoedd i ymlacio drwy gydol y flwyddyn, ystyriaeth o anghenion y teulu cyfan (sef, gofal plant, amserau gwyliau, cydbwysedd bywyd cartref/ysgol) | |
| 7c | A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei grybwyll ynglŷn â'r calendr ysgol yng Nghymru? | |

**Ymchwil i Strwythur y Flwyddyn Ysgol**

**Prif Waith Maes – Canllawiau Pwnc (Dysgwyr)**

**Themâu ymchwil:**

Thema 1: Cynnydd a chyrhaeddiad

Thema 2: Blinder a llesiant

Thema 3: Ymddygiad

Thema 4: Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

| **Thema** | |
|---|---|
| Cwestiynau cyffredinol<br><br>**Diben**: cwestiynau agoriadol i gael dysgwyr i feddwl am strwythur y flwyddyn ysgol, a sut y gwneir penderfyniadau amdani. | Pam fod strwythur y flwyddyn ysgol fel y mae? / Beth sy'n penderfynu patrwm y flwyddyn ysgol?<br><br>Pwy sy'n penderfynu pa mor hir yw'r tymhorau? |
| Thema 2<br><br>**Diben**: cael dysgwyr i feddwl am y cryfderau a'r gwendidau cysylltiedig â'r tymhorau ysgol. Rydym yn tybio y gall fod na fydd dysgwyr erioed wedi trafod hyn yn fanwl o'r blaen, felly gallai fod yn ddefnyddiol cychwyn gyda | Pa adegau o'r tymor / y flwyddyn yr edrychir ymlaen fwyaf amdanynt? Pam?<br><br>Annog: beth ydych chi'n ei *deimlo* am bob un o'r tymhorau? |

| | |
|---|---|
| nodweddion pob tymor. | (Archwilio beth sy'n dda a drwg o ynghylch tymhorau'r Hydref/Gwanwyn/Haf) |
| Thema 1 a Thema 2<br><br>**Diben**: profi canfyddiadau rhanddeiliaid fod tymor yr Hydref yn llethol i ddysgwyr. | *I ddysgwyr ysgol uwchradd: Sut deimlad yw cael cymaint o wybodaeth newydd yn nhymor yr Hydref?<br><br>A yw'n hawdd/anodd i ymdrin â llawer o bynciau newydd? Sut mae hyn yn gwneud ichi deimlo? |
| Thema 1 a Thema 2<br><br>**Diben**: profi canfyddiadau rhanddeiliaid fod dysgwyr yn ei chael yn fwy anodd canolbwyntio wrth i'r tymhorau fynd yn eu blaen. | (Dilynol) A oes unrhyw adegau yn y flwyddyn / tymor ysgol lle'r ydych yn teimlo **fwyaf blinedig** neu'n ei chael yn anodd dysgu?<br><br>Pam ydych chi'n meddwl y gallai hyn fod? |
| Thema 3<br><br>**Diben**: archwilio canfyddiadau rhanddeiliaid fod ymddygiad yn dirywio tuag at ddiwedd tymhorau a chyn gwyliau | Sut mae hyn (teimlo'n flinedig/ei chael yn anodd canolbwyntio) yn effeithio ar ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth? |
| Thema 2 a Thema 3<br><br>**Diben**: profi canfyddiadau rhanddeiliaid mai tymor yr Hydref sy'n cynyhyrchu'r mwyaf o absenoldebau, deall sut mae dysgwyr yn teimlo ynghylch clefydau a firysau | Pa adeg o'r tymor / y flwyddyn mae pobl yn fwyaf tebygol o fod yn absennol o'r ysgol?<br><br>Pam ydych chi'n meddwl y gallai hyn fod? |

| | |
|---|---|
| Thema 2 a Thema 3<br><br>**Diben**: annog disgyblion i feddwl am sut mae tymor hirach/byrrach yn effeithio arnynt eu hunain ac ar eu cyd-ddisgyblion dosbarth | Beth allai fod yn dda/ddrwg am gael tymor ysgol hir?<br><br>Beth allai fod yn dda/ddrwg am gael tymor ysgol byr?<br><br>Allwch chi feddwl am unrhyw resymau pam y gallai fod yn *well* gan unrhyw un naill ai dymor hirach neu un byrrach? |
| Thema 1<br><br>**Diben**: profi canfyddiadau rhanddeiliaid fod disgyblion yn elwa (yn sylweddol) o dreulio mwy o amser yn yr ysgol cyn arholiadau, o gymharu â threulio mwy o amser gartref (lle na fyddent efallai yn cael eu cefnogi / na fyddai ganddynt y gallu i adolygu'n effeithiol) | *I ddysgwyr Blwyddyn 11: Sut ydych chi'n teimlo am faint o amser sydd ar ôl yn yr ysgol tan yr arholiadau?<br><br>Beth yw'r ffordd orau o baratoi ar gyfer arholiadau? A yw'n well cael mwy o amser yn yr ystafell ddosbarth i adolygu gydag athrawon, neu a yw'n well adolygu gartref?<br><br>Ydych chi'n meddwl bod gwneud mwy o waith gydag athrawon yn union cyn arholiadau (felly hanner-tymor hirach cyn i'r tymor arholiadau gychwyn) yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau? |
| Thema 4<br><br>**Diben**: deall yn well beth mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ei ddisgwyl gyda'r cyfnod pontio | *I ddysgwyr Blwyddyn 6: Sut ydych chi'n teimlo ynghylch symud i'r ysgol uwchradd?<br><br>A yw hyn yn teimlo fel y bydd yn digwydd yn fuan?<br><br>**A yw'n hawdd setlo'n ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf?**<br><br>**Ydych chi erioed wedi anghofio rhai o'r pethau rydych wedi eu dysgu?** |
| Thema 4<br><br>**Diben**: profi canfyddiadau rhanddeiliaid fod gwyliau Haf 6 wythnos rhwng yr | *I ddysgwyr Blwyddyn 7+: A oes unrhyw beth a allai fod wedi gwneud y pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn haws?<br><br>Sut brofiad oedd addasu i'r ffordd mae dysgu'n digwydd yn yr ysgol uwchradd o gymharu â'r ysgol gynradd? |

| | |
|---|---|
| ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn gwneud y cyfnod pontio yn fwy anodd i ddysgwyr | |
| Thema 4<br><br>**Diben**: profi canfyddiadau rhanddeiliaid o'r gwendidau sy'n gysyllltiedig â gwyliau hir yr Haf, deall a yw'r disgyblion eu hunain yn cydnabod y rhain.<br><br>**Ystyriaethau – pwysig ailbwysleisio wrth ddysgwyr nad oes dim bwriad i leihau'r **cyfanswm** o amser gwyliau maent yn ei gael | A yw'r Haf yn teimlo fel gwyliau hir?<br><br>Pa fathau o bethau allai ei gwneud yn anodd i rai dysgwyr setlo'n ôl i'r ysgol ar ôl y gwyliau hir?<br><br>Beth allai *rhai* dysgwyr ei chael yn anodd / ei gasáu ynghylch gael gwyliau Haf hir? |
| Thema 1<br><br>**Diben:** Profi canfyddiadau o effeithiau gwyliau 6 wythnos ar ddal gafael ar wybodaeth a sgiliau. | Ydych chi'n teimlo fel pe baech yn anghofio rhywbeth dros wylliau'r haf y mae'n rhaid ichi wedyn ei ailddysgu eto?<br><br>*I ddysgwyr mewn addysg Gymraeg, yn enwedig lle nad yw'r Gymraeg yn iaith y cartref* Ydych chi'n teimlo fel pe baech chi'n dal gafael ar ddigon o allu yn y Gymraeg dros wyliau'r haf? |